Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Grŵp Llandrillo Menai
# Ffordd Llandudno
# Llandrillo-yn-Rhos
# Bae Colwyn
# LL28 4HZ

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/06/2017**

## Cyd-destun

Sefydliad addysg bellach yw Grŵp Llandrillo Menai a ffurfiwyd yn 2012 drwy uno Coleg Menai, Coleg Llandrillo a Choleg Meirion-Dwyfor. Mae'r colegau yn cadw eu hunaniaeth unigol eu hunain o fewn strwythur grŵp cyffredinol.

Yn yr adroddiad hwn, defnyddir y term 'coleg' i gyfeirio at Grŵp Llandrillo Menai yn gyfan. Lle ceir gwahaniaethau yn yr adroddiad rhwng colegau unigol yn y strwythur grŵp, cyfeirir at y colegau yn ôl eu henwau.

Mae'r coleg yn cwmpasu ardal fawr ar draws gogledd orllewin Cymru, gyda chyfanswm o 13 campws ar draws siroedd Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd. Amcangyfrifir mai cyfanswm poblogaeth y siroedd hyn yw 403,000. Mae cyfanswm o ryw 21,000 o ddysgwyr yn y coleg, ac o'r rheiny mae tua 6,000 yn astudio'n amser llawn, ac mae'n cyflogi rhyw 1,700 o staff. O ran niferoedd y dysgwyr addysg bellach, mae hyn yn ei wneud yn un o'r colegau addysg bellach mwyaf yng Nghymru.

O gymharu â cholegau eraill yng Nghymru, mae nifer gymharol fach o ddysgwyr yng Ngrŵp Llandrillo Menai sy'n dod o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig fel y'u nodweddir gan fynegai amddifadedd lluosog Cymru.

Mae'r coleg yn cwmpasu ardal lle ceir lefel uchel o amrywiaeth iaith. Yn siroedd Gwynedd ac Ynys Môn, mae dros hanner y boblogaeth leol yn siarad Cymraeg, yn ôl cyfrifiad 2011. Yn Sir Ddinbych a Chonwy, mae tua chwarter y boblogaeth leol yn siarad Cymraeg.

Mae'r coleg yn cynnig cwricwlwm o lefel cyn-mynediad i lefel gradd, ac mae'n cynnig darpariaeth Safon Uwch amser llawn mewn pum campws.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y coleg yn dda oherwydd:

- Yn 2015-2016, fe wnaeth dysgwyr gwblhau'u cymwysterau yn llwyddiannus ar gyfraddau ychydig yn uwch na'r cymharydd cenedlaethol; mae cyfraddau llwyddo yn dangos tuedd ar i fyny dros y cyfnod tair blynedd 2013-2014 i 2015-2016
- At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da yn eu hastudiaethau ac yn datblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd yn dda
- Mae bron pob un o'r dysgwyr wedi eu cymell i gyflawni, maent yn ymddwyn yn dda ac yn dangos gwerthoedd parch y coleg yn dda
- Mae darpariaeth y coleg yn galluogi dilyniant da iawn i ddysgwyr ym mhob campws, coleg unigol ac ar draws Grŵp Llandrillo Menai yn ei gyfanrwydd
- Mae'r coleg yn darparu ystod helaeth ac eang o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog effeithiol
- Mae bron pob un o'r athrawon yn cynllunio'u gwersi yn dda ac yn cyflwyno gwersi sy'n cynnwys rhediad da yn gyffredinol ac sy'n ennyn diddordeb dysgwyr mewn amrywiaeth o weithgareddau dysgu
- Mae'r coleg yn cefnogi iechyd a lles ei ddysgwyr yn dda; mae dysgwyr yn elwa o gael cymorth helaeth a chwnsela, gan y coleg a chan asiantaethau allanol arbenigol
- Mae'r coleg wedi sefydlu ethos cadarnhaol iawn ac yn cynnig amgylchedd croesawgar a chynhwysol lle mae bron pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cefnogaeth dda

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r coleg yn rhagorol oherwydd:

- Mae'r prif weithredwr yn darparu arweinyddiaeth ragorol; mae rheolwyr a staff ar bob lefel yn gefnogol iawn i'r coleg ac wedi ymrwymo i'w brif nodau ac amcanion
- Mae uwch reolwyr yn dangos penderfyniad ac uchelgais yn eu dymuniad i sicrhau gwelliant mewn agweddau allweddol ar waith y coleg
- Mae'r corff llywodraethol yn effeithiol iawn ac yn cyfrannu ystod eang o fedrau a gwybodaeth y mae'n eu defnyddio'n dda i gefnogi'r prif weithredwr ac i ddarparu her gadarn ar lefel uchel
- Mae cylch effeithiol o reoli ansawdd yn y coleg sy'n arwain yn fuddiol at ffurfio a chymedroli hunanarfarnu ar lefelau gwahanol; ceir cysylltiadau clir rhwng cynllunio strategol a chynllunio'r cwricwlwm a hunanasesu

- Mae gan y coleg bartneriaethau cadarn ac effeithiol iawn ag ystod eang o sefydliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i wella medrau a chyfleoedd cyflogaeth i ddysgwyr ar draws y rhanbarth
- Mae'r coleg yn rheoli ei gyllid a'i adnoddau yn dda iawn i sicrhau bod y cwricwlwm, staffio a chynlluniau ariannol wedi'u hintegreiddio'n llawn, yn dryloyw ac yn gadarn

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cyrraedd y safonau a'r graddau uchaf y gallant

A2 Gwella'r defnydd o dargedau tymor byr i ddysgwyr fel eu bod yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella

A3 Gwella strategaethau addysgu i sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei herio'n llawn

A4 Gwella ansawdd hunanarfarnu mewn meysydd dysgu

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y coleg yn ymgorffori camau gweithredu yn ei gynllun datblygu ansawdd, sy'n dangos yn glir sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd yn erbyn yr argymhellion hyn yn cael ei fonitro o bryd i'w gilydd gan arolygydd cyswllt Estyn y coleg. Gwahoddwyd y coleg i lunio astudiaethau achos i amlygu arfer ragorol a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn 2015-2016, llwyddodd dysgwyr yng Ngrŵp Llandrillo Menai i gyflawni eu cymwysterau ar gyfraddau ychydig uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol. Cwblhaodd dysgwyr eu prif gymwysterau ar raddfeydd sy'n cyfateb i'r cymharydd cenedlaethol. Ar draws dangosyddion eraill a mathau eraill o gymhwyster, mae dysgwyr yn llwyddo ar gyfraddau sy'n debyg i'r cyfartaleddau cenedlaethol yn gyffredinol.

At ei gilydd, mae cyfraddau llwyddo'r coleg yn dangos tuedd am i fyny dros y cyfnod tair blynedd 2013-2014 i 2015-2016. Fodd bynnag, ceir cyfraddau llwyddo sydd gryn dipyn islaw'r cymaryddion cenedlaethol ar draws ychydig o feysydd dysgu'r darparwr.

Mae dysgwyr o grwpiau ethnig gwahanol, dysgwyr sy'n fechgyn a merched, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a dysgwyr ag anableddau yn cyflawni eu cymwysterau yn llwyddiannus yn unol â pherfformiad cyffredinol y coleg, er bod dysgwyr o gefndiroedd mwy difreintiedig yn perfformio ychydig islaw cyfartaledd y coleg.

Yn eu rhaglenni galwedigaethol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn yn eu hastudiaethau. Mae eu medrau a'u cymwyseddau technegol yn datblygu ar raddfa dda. Mae rhan fwyaf y dysgwyr yn ymgysylltu'n dda â'u hathrawon a'u cyfoedion, ac yn cyfrannu'n dda at ddosbarthiadau a sesiynau gweithdy. Mewn llawer o achosion, mae dysgwyr yn defnyddio cyd-destunau realistig i gymhwyso'u medrau. Er enghraifft, mae dysgwyr peirianneg forol ym Mhwllheli yn gwneud atgyweiriadau ar gychod i'r ysgol hwylio leol. Mae dysgwyr lletygarwch ac arlwyo yn dylunio coctels a moctels yn gysylltiedig â digwyddiad thema Dydd Gŵyl Dewi ym mwyty'r coleg. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, nid yw dysgwyr yn cael eu herio i gyflawni'r safonau uchaf y gallent eu cyflawni, ac, er enghraifft, nid ydynt yn ymateb i gwestiynau athrawon gyda digon o fanylder.

Mewn dosbarthiadau Safon Uwch, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cofio dysgu blaenorol yn dda ac yn cymhwyso'u gwybodaeth a'u medrau yn effeithiol i gyd-destunau newydd. Mae llawer yn defnyddio terminoleg penodol i bwnc a therminoleg dechnegol yn gywir ac yn datblygu eu medrau ysgrifennu academaidd yn briodol. Mae llawer o ddysgwyr yn mynd ymlaen i addysg uwch mewn ystod o brifysgolion. At ei gilydd, fodd bynnag, nid yw ychydig o ddysgwyr yn cael eu herio'n ddigonol i gyflawni'r graddau Safon Uwch a'r graddau Uwch Gyfrannol y gallent eu cyflawni.

Mae bron pob dysgwyr yn cwblhau asesiadau cychwynnol ac asesiadau diagnostig priodol ar ddechrau eu cwrs, a defnyddiant y wybodaeth hon i nodi'u cryfderau a'u gwendidau cyffredinol mewn llythrennedd a rhifedd. Mae bron pob dysgwr yn deall yr angen i wella eu lefelau cychwynnol a dilyn cyrsiau addas, gan gynnwys TGAU mathemateg a Saesneg, a chymwysterau medrau hanfodol. Mae gan bron pob dysgwr nodau dysgu priodol ar gyfer llythrennedd a rhifedd, ond mewn ychydig o achosion, nid oes targedau tymor byr defnyddiol gan ddysgwyr i wella ac nid ydynt yn gwneud cynnydd digonol o ganlyniad i hynny.

Yn eu dosbarthiadau llythrennedd a rhifedd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu'u medrau ar gyflymder da. Caiff llawer o ddysgwyr gyfleoedd defnyddiol i ymarfer a datblygu eu medrau trwy gyd-destun eu rhaglenni galwedigaethol, dosbarthiadau Safon Uwch neu Bagloriaeth Cymru. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, nid yw dysgwyr yn cael cyfleoedd digonol i gymhwyso'u medrau, er enghraifft trwy ddadansoddi ystod o destunau i ddethol a dehongli gwybodaeth.

Mae'r coleg yn cwmpasu ardal lle ceir llawer iawn o amrywiaeth ieithyddol ac mae dysgwyr yn mynd i mewn i'r coleg gyda sbectrwm llawn o ran gallu yn y Gymraeg. Mae llawer o ddysgwyr sy'n mynd i mewn i'r coleg â chymwysterau TGAU Cymraeg iaith gyntaf yn cael asesiad cychwynnol o'u medrau llythrennedd Cymraeg er mwyn eu helpu i nodi sut i wella.

Ar draws y darparwr yn gyffredinol, mae llawer o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn ymgymryd â dysgu yn ddwyieithog neu yn Gymraeg, ac mae rhyw chwarter o ddysgwyr yn cael asesiadau yn Gymraeg. Yng Ngholeg Meirion-Dwyfor, lle mae llawer o ddysgwyr yn siaradwyr Cymraeg, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgymryd â dysgu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, ac mae tua hanner ohonynt yn cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg. At ei gilydd, mae cyfran y dysgwyr Cymraeg eu hiaith sy'n ymgymryd â dysgu neu asesu yn Gymraeg wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae dysgwyr Cymraeg eu hiaith yn dangos medrau Cymraeg cadarn ac yn defnyddio geirfa dechnegol yn rhugl ac yn hyderus. Er enghraifft, mae medrau llythrennedd cryf gan lawer o ddysgwyr Safon uwch ym Mhwllheli, maent yn defnyddio geirfa gyfoethog, yn ysgrifennu'n rhugl ac yn gwrando'n dda gyda lefel uchel o ddealltwriaeth. Mae dysgwyr ar gampws Glynllifon yn defnyddio termau ffermio Cymraeg traddodiadol yn rhugl a gyda pharch at amrywiadau iaith rhanbarthol. Mae dysgwyr sy'n ymgymryd ag astudiaethau mewn lleoliad dwyieithog yn dangos lefelau uchel o ran gallu mewn trawsieithu yn aml – sef defnyddio ieithoedd gwahanol gyda'i gilydd.

Mewn ardaloedd o'r darparwr lle na siaredir Cymraeg mor eang, mae mwyafrif y dysgwyr nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg yn defnyddio cyfleoedd buddiol i ddysgu, ymarfer a datblygu'u medrau Cymraeg ac i wella eu dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru. Mewn lleiafrif o achosion, fodd bynnag, nid yw dysgwyr yn datblygu'u dealltwriaeth o derminoleg Cymraeg neu'r dimensiwn Cymreig yn ddigon da.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi os oes angen help arnynt. Trwy raglen diwtorial gynhwysfawr y coleg, mae dysgwyr yn cael dealltwriaeth fuddiol o bwysigrwydd byw'n iach.

Mae rhan fwyaf y dysgwyr yn mynychu'n dda ac mae cyfraddau presenoldeb wedi bod yn gyson dros gyfnod o dair blynedd. Mae bron pob un o'r dysgwyr wedi eu cymell i gyflawni, maent yn ymddwyn yn dda ac yn dangos gwerthoedd parch y coleg yn dda. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn mynd ymlaen i astudiaethau pellach neu i gyflogaeth.

Mae dysgwyr yn ethol eu cyfoedion fel cynrychiolwyr. Mae'r dysgwyr hyn yn cyfrannu'n dda at gyfarfodydd trwy gydol y flwyddyn ac maent yn dylanwadu ar benderfyniadau'r coleg. Er enghraifft, mewn ymateb i adborth dysgwyr, newidiodd y coleg yr unedau dewisol y mae'n eu darparu ar raglen fusnes. Hefyd, mae dysgwyr yn cyfranogi mewn cynhadledd flynyddol werthfawr i ddysgwyr, wedi'i threfnu gan y dysgwyr, ac mae hon hefyd yn dylanwadu ar brosesau penderfynu'r coleg.

Mae llawer o ddysgwyr yn elwa o fod yn rhan o brosiectau ymarferol sydd â chysylltiadau â chyflogwyr lleol, gan gynnwys rhaglen fenter. Gwneir cyfraniad gwerthfawr gan ddysgwyr i'r gymuned trwy waith gwirfoddol a gweithgareddau codi arian i'r gymuned leol ac elusennau cenedlaethol.

Mae llawer o ddysgwyr yn elwa o'r cyfle i ddatblygu medrau cymdeithasol a medrau bywyd trwy gystadlaethau, ac mae ychydig ohonynt yn mynd ymlaen i gystadlu ar lefel leol, ranbarthol a rhyngwladol, er enghraifft, drwy Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol, cwpan coginio'r byd, a chystadlaethau sgiliau'r byd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae proses glir a chynhwysfawr gan y coleg ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm, sy'n ystyried blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol, gwybodaeth am y farchnad lafur leol a chenedlaethol ac adborth gan randdeiliaid allanol yn effeithiol iawn. Mae'r ystod helaeth o gyrsiau a gynigir yn diwallu anghenion dysgwyr o lefel mynediad hyd at lefel 6.

Mae darpariaeth y coleg yn galluogi dilyniant da iawn i ddysgwyr ar bob campws, coleg ac ar draws y coleg. Mae'r dilyniant hwn wedi'i fapio'n glir i roi dewis eang a chyfle cyfartal i ddysgwyr o ran y modd y gallant ddilyn rhaglenni ar draws lefelau dysgu, arbenigeddau gwahanol a mathau o astudiaeth, er enghraifft trwy barhau mewn addysg bellach, neu fynd i mewn i ddysgu yn y gwaith neu addysg uwch.

Ceir cysylltiadau da iawn gyda chyflogwyr, sy'n arwain at brofiad gwaith perthnasol o ansawdd da i ddysgwyr mewn llawer o feysydd. Er enghraifft, mewn lletygarwch, mae dysgwyr yn elwa o gyfleoedd i weithio mewn sefydliadau lletygarwch rhyngwladol. Mae dysgwyr medrau byw'n annibynnol yn elwa o raglen profiad gwaith arloesol, sy'n gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau cymorth y tu allan i'r coleg i gynorthwyo dysgwyr fynd i mewn i gyflogaeth pan fyddant yn gadael y coleg.

Mae'r coleg yn cynnig ystod o ddarpariaeth gynhwysfawr i gefnogi datblygu medrau llythrennedd Cymraeg a Saesneg dysgwyr, eu medrau rhifedd a'u medrau llythrennedd digidol. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys cymwysterau medrau hanfodol, TGAU ac Adeiladu Sgiliau. Mae cynllun medrau'r coleg yn glir ac yn nodi sut bydd rhaglenni medrau yn cyfateb i anghenion dysgwyr unigol. Mae'r rhaglenni unigol hyn yn defnyddio gwybodaeth o broffiliau graddau ac asesiadau cychwynnol dysgwyr yn dda. Gwneir defnydd effeithiol iawn o'r offeryn cenedlaethol asesu cychwynnol ac asesu diagnostig (WEST) gan y coleg i gefnogi datblygu medrau. Mewn ychydig iawn o feysydd, fodd bynnag, ceir anghysondeb o ran ymgorffori llythrennedd a rhifedd ym mhrif raglenni dysgwyr.

Mae’r coleg yn darparu ystod helaeth ac eang o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae’r coleg yn arwain yn genedlaethol drwy ei ddarpariaeth Sgiliaith effeithiol iawn sy’n cefnogi dwyieithrwydd ar draws y sector addysg bellach. Mae’r fenter a gyflwynwyd yn ddiweddar, Seren Iaith, yn fenter arloesol sy’n arwain y sector sydd yn herio agweddau dysgwyr at ddefnyddio’r Gymraeg ac yn hyrwyddo defnydd cymdeithasol ac academaidd o’r Gymraeg. O ganlyniad, mae nifer gynyddol o ddysgwyr yn ymgymryd â dysgu ac asesu yn Gymraeg, er nad yw’r ddarpariaeth hon yn gyson ar draws bob campws.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn gynhwysfawr, mae wedi’i mapio yn unol â nodau strategol y coleg ac yn gysylltiedig â fframweithiau perthnasol eraill, er enghraifft y fframwaith lles. Mae adnoddau addysg a dysgu ar gael i staff a dysgwyr i ymestyn eu gwybodaeth am ddinasyddiaeth fyd-eang a datblygu cynaliadwy drwy amrywiaeth eang o gyfleoedd, gan gynnwys cymhwyster Bagloriaeth Cymru a phrofiad yn gysylltiedig â gwaith.

**Addysgu: Da**

Ar draws y coleg, mae rhan fwyaf yr athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol a medrau technegol cynhwysfawr a diweddar. Mae athrawon yn defnyddio’u gwybodaeth am ddiwydiant yn dda i ddatblygu medrau ymarferol a medrau theori dysgwyr, ac i’w paratoi ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol neu addysg bellach.

Mae bron pob un o’r athrawon yn cynllunio’u gwersi yn dda ac yn pennu disgwyliadau clir ar gyfer dysgwyr ar ddechrau’r sesiwn. Mae rhediad da i wersi ar y cyfan ac maent yn ennyn diddordeb dysgwyr mewn amrywiaeth o weithgareddau dysgu. Mewn gwersi theori a gwersi ymarferol, mae bron pob athro yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu a dysgu addas i gymell ac ennyn diddordeb dysgwyr. Maent yn defnyddio adnoddau diweddar o ansawdd uchel, yn enwedig mewn amaethyddiaeth a pheirianneg. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, nid yw athrawon yn defnyddio strategaeth holi neu strategaethau addysgu eraill i wirio, herio ac ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr yn ddigon da bob amser. Mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn herio dysgwyr, yn enwedig y rhai mwyaf abl, i gael y graddau a’r deilliannau y gallent eu cael.

Mae bron yr holl athrawon yn sefydlu perthnasoedd gweithio cadarnhaol a chynhyrchiol gyda’u dysgwyr. Maent yn fodelau rôl da ac yn hyrwyddo pwysigrwydd ymagwedd broffesiynol mewn meysydd dysgu galwedigaethol, fel lletygarwch ac arlwyo a gweinyddu busnes. Mae athrawon yn defnyddio staff cymorth yn effeithiol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr ar raglenni lefel 1. Mae hyn yn galluogi llawer o’r dysgwyr hyn i wneud cynnydd da a dysgu medrau newydd.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn marcio gwaith ysgrifenedig dysgwyr yn rheolaidd ac yn rhoi adborth defnyddiol iddynt. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, mae ansawdd adborth adeiladol yn anghyson ac nid yw bob amser yn helpu dysgwyr i wybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

At ei gilydd, mae athrawon yn integreiddio darpariaeth i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd yn dda ar draws bron pob maes dysgu. Mae mentoriaid addysg a dysgu’r coleg yn helpu ac yn cefnogi athrawon y gall fod angen arweiniad

arnynt ar y modd gorau i integreiddio'r medrau hyn mewn sesiynau a addysgir. Mae mwyafrif o athrawon yn gosod ac yn monitro targedau priodol i ddysgwyr. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, ceir anghysondeb o ran pennu targedau tymor byr.

Mae'r rhan fwyaf o staff addysgu yn cynllunio gweithgareddau asesu yn dda. Mae system olrhain dysgwyr ar-lein y coleg yn offeryn effeithiol i gofnodi asesu dysgu a monitro targedau dysgwyr. Mae uwch reolwyr, rheolwyr meysydd dysgu ac athrawon yn defnyddio'r system hon yn dda i fonitro cynnydd dysgwyr unigol a darpariaeth cyrsiau cyfan. Gall dysgwyr ddefnyddio'r system hefyd i wirio'u cynnydd eu hunain. Mae'r coleg yn defnyddio'r system yn effeithiol iawn i ddarparu adborth cynhwysfawr ddwywaith y flwyddyn i rieni a gofalwyr ar gynnydd dysgwyr.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r coleg yn gweithredu ystod eang o bolisïau yn effeithiol i gefnogi iechyd a lles ei ddysgwyr. Lle ceir rhwystrau rhag dysgu neu les, mae dysgwyr yn elwa o gymorth a chwnsela helaeth, gan y coleg a chan asiantaethau allanol arbenigol lle bo'n briodol. Er enghraifft, mae'r gwasanaethau cwnsela a'r gwasanaethau galw heibio 'Amser i Chi' a gynigir ar draws bob campws yn galluogi dysgwyr i drafod a chael cymorth personol ar gyfer amrywiaeth o faterion, er enghraifft o fedrau astudio i anawsterau domestig ac ariannol.

Cyn dod i mewn i'r coleg, caiff darpar ddysgwyr wybodaeth a chyngor cynhwysfawr, clir a realistig am y cyrsiau sydd ar gael ar bob campws. Mae'r coleg wedi sefydlu trefniadau rhannu gwybodaeth effeithiol iawn gyda sefydliadau addysgol, cymorth cymdeithasol, a chyrff cyhoeddus eraill, yn ogystal ag elusennau sy'n gweithredu mewn awdurdodau lleol ledled gogledd-orllewin Cymru. O gyfnod cynnar, mae arweiniad yn canolbwyntio ar ddyheadau dysgwyr o ran gyrfaoedd, ac mae cyngor da iawn ar gael i ddysgwyr ynglŷn ag opsiynau dilyniant sy'n agored iddynt ar ôl iddynt gwblhau eu cyrsiau.

Mae'r coleg yn gweithio'n arbennig o dda gyda chynrychiolwyr dysgwyr i hyrwyddo'i werthoedd, meithrin ethos o barch y naill at y llall, a sicrhau presenoldeb uchel mewn gwersi. Mae gan y staff raglen gynhwysfawr o weithgareddau tiwtorial a gweithgareddau cyfoethogi ehangach o ansawdd uchel iawn sy'n dathlu amrywiaeth, yn cynyddu ymwybyddiaeth o faterion cymdeithasol, ac yn datblygu medrau bywyd dysgwyr.

Mae'r coleg wedi datblygu system arloesol i nodi dysgwyr sydd mewn perygl o fethu symud ymlaen â'u haddysg neu gael swydd. Mae'r system hon, sydd wedi'i hadeiladu ar ganfyddiadau eu prosiect ymchwil weithredu, yn galluogi staff i ddarparu cymorth ychwanegol wedi'i deilwra i ddysgwyr dynodedig. Yn dilyn peilot llwyddiannus yn 2015-2016, mae'r system hon yn cael ei gweithredu'n eang ar draws y coleg erbyn hyn ac mae wedi'i mabwysiadu gan goleg arall.

Ceir arferion effeithiol yn y coleg i nodi a diwallu anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr. Caiff staff cymorth dysgu eu defnyddio'n dda i gefnogi dysgwyr y cydnabuwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol. Mae aelodau staff yn monitro cynnydd y dysgwyr hyn yn fanwl, ochr yn ochr â grwpiau lleiafrifol eraill, gan ddefnyddio system ar-lein fuddiol y coleg. Mae'r system hon yn eu galluogi i

gyfathrebu'n effeithiol ac i fireinio'r cymorth i ddysgwyr unigol wrth i'w hanghenion newid.

Mae trefniadau'r coleg ar gyfer diogelu, gan gynnwys ei ddyletswydd i warchod pobl ifanc rhag radicaleiddio ac eithafiaeth, yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae'r coleg wedi sefydlu ethos cadarnhaol cryf iawn ar draws ei dri choleg. Mae pob campws yn cynnig amgylchedd croesawgar a chynhwysol iawn lle mae bron pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel a bod cefnogaeth dda iddynt.

Mae'r coleg yn cyfleu ei werthoedd craidd a'i ymddygiadau disgwyliedig yn eithriadol o dda, er enghraifft drwy ddefnyddio deunyddiau gwybodaeth, arddangosiadau a deunyddiau clyweledol sydd wedi'u dylunio'n arbennig o dda. O ganlyniad, mae bron pob un o'r staff a'r dysgwyr yn dangos ymrwymiad cadarn i'r gwerthoedd a'r ymddygiadau hyn.

Mae'r coleg yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda iawn i atal ymddygiad gormesgar. Mae uwch reolwyr yn sicrhau bod siarter cydraddoldeb ac amrywiaeth y coleg, a chynlluniau gweithredu cysylltiedig, yn cael eu gweithredu'n gyson ac effeithiol. O ganlyniad, mae diwylliant o barch y naill at y llall yn treiddio i bob campws ac mae ymddygiad bron pob dysgwr yn rhagorol. Mae cyfraddau llwyddo ar gyfer y mwyafrif o ddysgwyr sydd â nodweddion gwarchodedig (fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010) yn cyfateb i'r cyfraddau ar gyfer dysgwyr eraill neu'n rhagori arnynt.

Mae bron pob un o'r rheolwyr a'r staff yn herio unrhyw wahaniaethu neu anghydraddoldeb yn briodol. Hefyd, mae'r coleg yn defnyddio ystod o ddulliau arloesol i hyrwyddo cydraddoldeb yn dda iawn. Er enghraifft, mae'n herio stereoteipiau rhyw mewn dewisiadau dysgwyr mewn llawer o feysydd dysgu drwy fenter 'Ewch Amdani / Go For It!' lle mae dysgwyr yn gweithredu fel hyrwyddwyr amrywiaeth.

Mae llawer o ddysgwyr a staff ar draws y coleg yn ymgysylltu'n dda â digwyddiadau â thema, fel gweithgareddau Dydd Gŵyl Dewi ac wrth ddathlu wythnos gŵyl amrywiaeth.

Mae pob campws yn cynnig adeiladau priodol sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ac mae llawer o adeiladau o safon uchel iawn.

Mae bron pob dysgwr yn elwa o gael mynediad cyfartal i adnoddau dysgu diweddar, gan gynnwys offer a chyfleusterau arbenigol sy'n cydweddu'n dda iawn ag anghenion dysgwyr. Mae'r holl ddysgwyr a'r staff yn cael mynediad gwerthfawr a chyson i rwydweithiau diwifr ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio hyn yn dda i gefnogi eu dysgu a'u gweithgareddau gwaith.

Ceir adnoddau da yn y canolfannau dysgu, gyda deunyddiau ac offer priodol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Rhagorol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r prif weithredwr a'r corff llywodraethol wedi bod yn effeithiol iawn yn uno'r tri choleg yn llwyddiannus yn strwythur y grŵp. O ganlyniad i arweinyddiaeth strategol uchelgeisiol a chlir, ymgymerwyd â'r uno o fewn diwylliant o dryloywder, cydweithredu ac eglurder. Mae'r prif weithredwr yn darparu arweinyddiaeth ragorol sydd wedi cael effaith arwyddocaol ar drawsnewid y coleg. O ganlyniad, mae rheolwyr a staff ar bob lefel yn gefnogol iawn i'r coleg ac wedi ymrwymo i'w nodau ac amcanion allweddol. Yn ystod cyfnod o gryn newid, mae morâl staff wedi bod yn uchel ac wedi parhau i wella. Mae cyfraddau llwyddo ar gyfer dysgwyr wedi gwella, ac mae cyfraddau llwyddo bob un o'r tri choleg cyfansoddol yr un fath â'r cymharydd cenedlaethol neu'n uwch.

Mae'r uwch dîm rheoli a ddiwygiwyd yn ddiweddar y cynnwys y prif weithredwr, dau bennaeth a thri chyfarwyddwr gweithredol. Mae'r tîm yn gydlynus gyda rolau a chyfrifoldebau pendant. Mae'r rolau hyn yn rhai cyfartal gyda llwythi gwaith a lefelau cyfrifoldeb cytbwys.

Mae gan y coleg gynllun strategol clir a chynhwysfawr. Yn ddiweddar, mae'r uwch reolwyr wedi diwygio gwerthoedd y coleg i adlewyrchu ei uchelgais yn fanylach. Mae staff ar bob lefel yn deall yn glir werthoedd cydraddoldeb, ansawdd, arloesedd a phroffesiynoldeb.

Mae uwch arweinwyr yn rhoi ffocws clir ar wella medrau rheolwyr canol trwy ddefnyddio hyfforddiant â ffocws, a nodwyd hyn fel blaenoriaeth yn ystod cyfnod o newid sylweddol. O ganlyniad, mae rheolwyr ar draws y coleg yn datblygu lefel uchel o ddealltwriaeth o'r hyn a ddisgwylir ganddynt, ac maent wedi'u grymuso i wella a datblygu eu darpariaeth.

Mae cyfathrebu yn effeithiol iawn ar draws y coleg. Mae'n rheolaidd ac yn gynhwysfawr, ac o ganlyniad, mae staff ar bob lefel yn wybodus ac yn cael gwybodaeth ddiweddar am ystod eang o faterion a datblygiadau. Cynhelir cyfarfodydd rheolwyr ar bob lefel yn rheolaidd ar draws y coleg. Mae'r rhain yn cynnwys strwythur da, a chânt eu defnyddio'n gyson i fonitro a rhannu ystod eang o wybodaeth.

Mae'r coleg wedi cryfhau'n sylweddol y ffordd y mae'n cipio ac yn rhannu ystod gynhwysfawr o wybodaeth a data perfformiad gyda rheolwyr. Mae wedi datblygu ac yn defnyddio ei ddangosfyrddau gwybodaeth perfformiad a chynllunio yn arbennig o dda. O ganlyniad, mae rheolwyr a bron pob un o'r staff yn defnyddio'r wybodaeth hon fel mater o drefn i fonitro cynnydd a pherfformiad dysgwyr yn erbyn targedau.

Mae'r systemau a'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli perfformiad staff wedi'u cryfhau'n sylweddol. Yn benodol, mae rheolwyr canol wedi derbyn hyfforddiant buddiol iawn i ddatblygu agweddau allweddol ar eu rôl. Maent yn ymgymryd ag adolygiadau o berfformiad staff gyda mwy o drylwyrdeb ac effeithiolrwydd, ac yn monitro perfformiad dysgwyr yn gadarn.

Mae'r corff llywodraethol yn effeithiol iawn ac yn darparu lefel her arbennig o drylwyr i uwch reolwyr. Mae ystod o brofiad cynhwysfawr mewn diwydiant, masnach ac addysg gan y llywodraethwyr. Maent yn cyfrannu ystod eang o fedrau a gwybodaeth o ran addysg a hyfforddiant. Defnyddiant y medrau hyn yn arbennig o dda i gefnogi'r prif weithredwr ac i ddarparu her gadarn ar lefel uchel.

Mae'r coleg yn ymatebol iawn i ddiwallu anghenion lleol a blaenoriaethau cenedlaethol. Mae wedi bod yn arbennig o effeithiol o ran ymsefydlu ei hun fel darparwr addysg a hyfforddiant allweddol ar draws y rhanbarth.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y coleg fframwaith ansawdd trylwyr a buddiol sy'n amlinellu'n glir rolau a chyfrifoldebau staff a thimau sy'n gysylltiedig â'r broses hunanasesu. Mae ganddo gylch effeithiol o reoli ansawdd sy'n arwain at lunio a chymedroli hunanarfarnu ar lefelau gwahanol. Ceir cysylltiadau clir rhwng cynllunio strategol a chynllunio'r cwricwlwm a hunanasesu.

Mae'r hunanasesu yn gynhwysfawr mewn mwyafrif o feysydd dysgu. Mewn lleiafrif o feysydd dysgu, fodd bynnag, nid yw'r hunanasesu yn ddigon arfarnol, ac mewn ychydig o feysydd, nid yw'n dadansoddi data'n gyson ar draws ystod lawn darpariaeth y meysydd dysgu.

Mae uwch reolwyr wedi gweithredu'n gyflym i ddadansoddi tueddiadau data ac wedi cymryd mesurau pendant i newid y diwylliant sicrhau ansawdd a chynllunio i sicrhau gwelliannau er 2014. Er enghraifft, maent wedi cyflwyno proses arsylwi addysgu a dysgu ddiwygiedig, a rhaglen o deithiau dysgu defnyddiol â thema sy'n llywio eu harfarniad o addysgu a dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o staff a rheolwyr ar bob lefel yn defnyddio system dangosfwrdd electronig y coleg yn effeithiol, gan roi deilliannau dysgwyr wrth wraidd y broses ansawdd. Mae staff yn craffu ar ddeilliannau ar lefel rhaglenni a dysgwyr yn drwyadl. Mae'r coleg yn defnyddio ystod eang o ymyriadau, fel paneli perfformiad rhaglenni a cholegau, gwiriadau iechyd cyrsiau ac arolygiadau ansawdd mewnol. Mae'r cymorth targedig hwn wedi gwella deilliannau. Er enghraifft, mae cyfraddau presenoldeb a llwyddiant wedi gwella mewn cyrsiau a oedd yn tanberfformio'n flaenorol; mae cyfraddau llwyddo wedi gwella ar gyfer grwpiau dysgwyr y mae perygl iddynt beidio â chwblhau eu cyrsiau.

Mae'r coleg yn defnyddio meincnodau cenedlaethol a lleol yn dda, ac mae arweinwyr yn llwyddo i fonitro tanberfformiad a gosod targedau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, megis dechrau cael ei datblygu y mae'r broses o osod targedau tymor byr ar gyfer gwella medrau, ac mae'n anghyson ar draws y coleg.

Mae'r coleg yn sicrhau bod y broses gefnogol o reoli perfformiad staff yn cael ei hintegreiddio'n dda â gwella ansawdd. Mae'n defnyddio ystod o dystiolaeth fel deilliannau cyrsiau ac arsylwadau gwersi yn dda i nodi anghenion hyfforddi unigol a rhai'r coleg cyfan. Mae'r coleg yn rhannu arfer orau yn effeithiol drwy fentrau buddiol fel adnoddau arfer dda 'i fynd â nhw i ffwrdd' ac arbrofion a gefnogir. Mae'r rhain yn meithrin ethos o gydweithredu wrth ddatblygu strategaethau addysgu a dysgu.

Mae'r coleg yn defnyddio barnau ac adborth defnyddwyr i ysgogi gwelliannau yn yr addysgu a'r dysgu. Caiff dysgwyr adborth gwerthfawr ar y modd yr ystyriwyd eu barnau wrth wneud gwelliannau, er enghraifft trwy gynrychiolwyr dysgwyr ar fforymau, byrddau arddangos, a dulliau electronig, fel y porth dysgwyr.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan y coleg bartneriaethau cadarn iawn ag ystod amrywiol o sefydliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar lefel strategol a lefel meysydd dysgu, a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar brofiadau a deilliannau dysgwyr.

Mae'r uwch dîm rheoli yn uchelgeisiol yn ei waith gyda phartneriaid i fodloni'r anghenion presennol, ac maent yn cynllunio ar gyfer anghenion medrau'r dyfodol yng ngogledd Cymru. Mae'r coleg yn aelod rhagweithiol a dylanwadol iawn o Fwrdd Uchelgeisiau Economaidd Gogledd Cymru. Mae'r coleg yn chwarae rhan arwyddocaol ac allweddol yn datblygu a chyflwyno nifer o brosiectau cydweithredol o ansawdd uchel, gan arwain ar dri o'r rhain. O ganlyniad i'r cysylltiad hwn, mae'r coleg wedi caffael gwybodaeth arbennig o werthfawr am gyfleoedd cyflogaeth yn y diwydiant ynni. Mae'n defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i ddarparu cyrsiau er mwyn datblygu medrau'r gweithlu presennol a rhai newydd sy'n dod i mewn i'r diwydiant.

Mae'r coleg yn gweithio'n agos gyda choleg arall yng ngogledd Cymru ar brosiectau ar y cyd. O ganlyniad, mae wedi datblygu perthynas o hyder ac ymddiriedaeth eithriadol gyda ffocws clir ar fodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr. Mae'r ymagwedd aeddfed hon wedi bod yn fuddiol iawn o ran bodloni anghenion medrau presennol cyflogwyr mawr yn y rhanbarth a'u hanghenion medrau i'r dyfodol.

Gwna'r coleg gyfraniad sylweddol at waith y rhwydweithiau 14-19 ar draws bob un o'r pedair sir, gan ehangu'n sylweddol y dewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr yn yr ysgol cyn 16 oed ac ar ôl 16 oed. Mae tua 1,700 o ddysgwyr ysgol yn cael darpariaeth alwedigaethol a darpariaeth Safon Uwch ar y cyd yn y coleg bob blwyddyn.

Mae'r coleg yn gweithio'n eithriadol o dda gydag ystod o ddarparwyr addysg uwch i ddarparu cyfleoedd addysg uwch gwerthfawr i ryw 1,500 o ddysgwyr. Mae'r partneriaethau hyn yn ehangu cyfranogiad ac yn darparu cyfleoedd dilyniant cynhwysfawr i ddysgwyr addysg bellach. Mae'r cyfleoedd hyn yn darparu mynediad lleol i ddysgwyr y gallai eu hamgylchiadau personol fod wedi'u hatal rhag symud ymlaen i lefelau dysgu uwch. Yn 2015-2016, daeth chwarter o ddysgwyr addysg uwch y coleg o gymdogaethau lle ceir cyfranogiad isel.

Mae perthnasoedd effeithiol a chynhyrchiol iawn wedi'u datblygu a'u sefydlu gyda chyflogwyr bach a chanolig a chwmnïau mawr. Mae'r cyflogwyr hyn yn mawr werthfawrogi'r ymatebolrwydd a'r hyblygrwydd a ddangosir gan y coleg i ddiwallu eu hanghenion hyfforddi amrywiol. Er enghraifft, mae canolfan technoleg bwyd y coleg wedi gweithio'n dda gyda chwmnïau bwyd a diod bach a chenedlaethol i gefnogi dechrau busnes, arloesi mewn busnes a thwf. Yn 2015-2016, cefnogodd y ganolfan 106 o fusnesau newydd a busnesau presennol yn effeithiol. Mae dysgwyr amser llawn ar draws y coleg yn cael cryn fudd o gael defnyddio cyfleusterau'r ganolfan ac arbenigedd y staff.

Mae llawer o feysydd dysgu yn gwneud defnydd effeithiol iawn o bartneriaethau i gyfoethogi profiadau dysgu eu dysgwyr.  Er enghraifft, defnyddir partneriaethau i ddarparu cyfleoedd profiad gwaith buddiol i ddysgwyr mewn lletygarwch ac arlwyo, peirianneg, adeiladu, iechyd a gofal cymdeithasol a medrau byw'n annibynnol.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r coleg yn rheoli ei gyllid a'i adnoddau yn dda.  Mae wedi datblygu model cynllunio arloesol ac effeithiol iawn, ac fe'i defnyddir yn dda iawn gan reolwyr ar bob lefel.  Mae hyn yn sicrhau bod cynlluniau'r cwricwlwm, cynlluniau staffio a chynlluniau ariannol wedi'u hintegreiddio'n llawn, yn dryloyw ac yn gadarn.

Mae perfformiad ariannol cyffredinol y coleg yn gadarn, yn enwedig o ran rheoli ei sefyllfa ariannol a chynnal lefelau benthyg cyson isel.

Mae staff arbenigol yn effeithiol iawn o ran tynnu data ynghyd o ystod eang o ffynonellau, a darparu mynediad i ddangosfyrddau data hawdd eu defnyddio i bob un o'r staff.  Gwna'r rheolwyr ddefnydd da iawn o'r amrywiaeth gyfoethog o ddata a gwybodaeth feincnodi i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Mae'r coleg wedi mynd i'r afael ag anghysonderau wedi'u hetifeddu mewn cytundebau llwythi gwaith lleol ar draws y tri choleg yn fedrus iawn.  Yn ddiweddar, mae rheolwyr a staff wedi cytuno ar gytundeb llwyth gwaith wedi'i gysoni.  Mae'r cytundeb hwn yn dechrau arwain at welliannau sylweddol o ran pa mor effeithlon a chyfartal y caiff staff eu defnyddio ar draws y coleg.

Mae'r coleg wedi datblygu strategaeth ystadau ystyriol, uchelgeisiol a realistig ar gyfer gwella ansawdd ei adeiladu, er nad yw'r strategaeth wedi'i datblygu gystal ar gyfer campws Bangor, lle mae'r adeiladau yn fwy amrywiol o ran ansawdd.  Mae'r coleg yn gwneud defnydd medrus o gymorth trydydd parti i weithredu llawer o ddatblygiadau cyfalaf.

Mae ymrwymiad cadarn gan y coleg i ddatblygiad proffesiynol parhaus.  Mae wedi cynnal ei fuddsoddiad yn gyson mewn hyfforddiant a datblygiad staff ers yr uno.  Mae staff yn rhannu arfer dda gydag athrawon eraill yn y coleg a thu hwnt yn dda.  Er enghraifft, mae tîm eang o fentoriaid addysgu a dysgu yn darparu cymorth a her gwerthfawr i'w cymheiriaid.  Mae prosesau rheoli perfformiad yn gadarn a chefnogol.

At ei gilydd, mae'r deilliannau ar gyfer dysgwyr yn dda, ac mae'r coleg yn cynnig gwerth da am arian.

## Adroddiadau Meysydd Dysgu

Llythrennedd

### Cyd-destun y maes dysgu

Caiff llythrennedd yn y coleg ei addysgu trwy ddosbarthiadau medrau hanfodol, dosbarthiadau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, dosbarthiadau TGAU ac ystod o ddosbarthiadau cyn TGAU, drwy ddosbarthiadau adeiladu sgiliau a chymorth i ddysgwyr. Hefyd, mae dysgwyr yn datblygu'u medrau llythrennedd drwy eu prif raglenni astudio.

Mae'r coleg yn defnyddio'r offeryn cenedlaethol asesu cychwynnol ac asesu diagnostig i nodi anghenion medrau dysgwyr. Mae canlyniadau asesiadau cychwynnol ar gyfer 2016-2017 yn dangos bod 80% o ddysgwyr yn meddu ar fedrau llythrennedd ar lefel 1 neu is pan fyddant yn dod i mewn i'r coleg.

### Argymhellion y maes dysgu

A1 Sicrhau bod targedau tymor byr perthnasol gan ddysgwyr sy'n eu helpu i ddatblygu'u medrau llythrennedd

A2 Defnyddio holi yn fwy effeithiol i herio dysgwyr a'u hannog i ymestyn eu hymatebion

A3 Defnyddio'r canllaw marcio llythrennedd, ynghyd ag adborth ysgrifenedig adeiladol, i helpu dysgwyr nodi meysydd gwella penodol

### Prif Ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Barn: Da

Dros gyfnod o dair blynedd, mae'r gyfradd y mae dysgwyr yn cwblhau cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yn llwyddiannus mewn Cyfathrebu wedi gwella ac mae'n gyson â chymaryddion cenedlaethol.

Mae dysgwyr yn cwblhau'r asesiad diagnostig cychwynnol mewn llythrennedd ar ddechau eu cyrsiau. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dilyn cyrsiau llythrennedd priodol i ddatblygu'u medrau. Maent yn deall eu lefel gychwynnol a beth sydd angen iddynt ei wneud yn gyffredinol er mwyn gwella. Fodd bynnag, ychydig o ddysgwyr sydd â thargedau tymor byr i'w helpu i ganolbwyntio'u hymdrechion a'r meysydd y mae angen iddynt eu gwella fwyaf.

Mewn llythrennedd a meysydd galwedigaethol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio'u medrau siarad a gwrando yn dda i gyfathrebu'n effeithiol. Mae llawer o ddysgwyr yn ymateb yn glir i gwestiynau, ac maent yn datblygu ac yn defnyddio terminoleg penodol i bwnc yn briodol. Fodd bynnag, mae rhai yn rhoi ymatebion byr heb eu datblygu'n ddigonol, ac nid ydynt yn ymestyn eu hatebion.

Mewn sesiynau medrau, mae dysgwyr yn dethol gwybodaeth o destunau yn dda ac yn cymhwyso'u dealltwriaeth yn dda.

Mewn meysydd galwedigaethol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu medrau darllen yn briodol yng nghyd-destun eu rhaglenni cwrs. Mae llawer ohonynt yn datblygu termau penodol i bwnc yn addas, ac mewn ychydig o feysydd dysgu, mae dysgwyr yn dod o hyd i eiriau anodd ac yn casglu beth yw eu hystyr yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddefnyddio terminoleg gymhleth mewn nyrsio milfeddygol. Yn y rhan fwyaf o feysydd dysgu, mae dysgwyr yn defnyddio ystod o strategaethau darllen yn effeithiol, er enghraifft drwy amlygu a chrynhoi pwyntiau allweddol mewn testunau. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o feysydd dysgu, nid yw gallu dysgwyr i ddadansoddi ystod o destunau ac adalw gwybodaeth wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae llawer o ddysgwyr ar gyrsiau medrau yn defnyddio ystod briodol o arddulliau ysgrifennu sy'n addas i'w lefel astudio. Mae llawer o ddysgwyr ar gyrsiau Safon Uwch yn ysgrifennu'n effeithiol at ystod o ddibenion. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar draws y coleg yn defnyddio termau technegol yn dda yng nghyd-destun eu rhaglenni galwedigaethol neu gyrsiau Safon Uwch. Mewn ychydig o feysydd dysgu, fodd bynnag, mae safonau gwaith ysgrifenedig a chyflwyniad yn rhy amrywiol.

Mae dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn gwneud cynnydd cadarn ac yn datblygu'u medrau ysgrifenedig a'u medrau llafar yn dda. Er enghraifft, mae medrau llythrennedd cadarn gan ddysgwyr ar gyrsiau Safon Uwch, maent yn defnyddio geirfa gyfoethog ac yn datblygu dadleuon dadansoddol soffistigedig. Maent yn gwrando'n dda ac yn darllen testunau addas o heriol gyda hyder a lefel uchel o ddealltwriaeth. Mae dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn datblygu'u galluoedd ieithyddol a'u medrau trawsieithu – sef y defnydd o ieithoedd gwahanol gyda'i gilydd – yn dda. Mae cyfran y dysgwyr sy'n siarad Cymraeg sydd yn ymgymryd â dysgu neu asesu trwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu rhwng 15 ac 20 pwynt canran dros y flwyddyn ddiwethaf, a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau llythrennedd y dysgwyr hyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos agwedd gadarnhaol at eu dysgu ac maent yn ymgysylltu'n dda ag adnoddau i ddatblygu'u medrau llythrennedd. Mae bron pob dysgwr yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth, ac maent yn dangos parch at eu cyfoedion a'r staff.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Barn: Da**

Mae'r coleg yn defnyddio'r offeryn cenedlaethol asesu cychwynnol (WEST) yn dda i nodi cryfderau dysgwyr a meysydd i'w gwella. Caiff lefelau asesu cychwynnol a gwybodaeth am gyrhaeddiad blaenorol dysgwyr eu defnyddio'n dda i osod dysgwyr mewn darpariaeth briodol. Mae gwybodaeth o'r offeryn hwn yn cael ei hintegreiddio yn systemau olrhain y coleg yn effeithiol. O ganlyniad, gall staff addysgu fonitro cynnydd dysgwyr, ac mae gan reolwyr drosolwg effeithiol o gynnydd dysgwyr mewn llythrennedd.

Mae bron pob un o'r athrawon yn gosod targedau tymor canolig addas yn system olrhain electronig y coleg a gall dysgwyr gael mynediad rhwydd i'r rhain. Mae

athrawon cwrs yn monitro targedau mewn sesiynau tiwtorial yn rheolaidd. Fodd bynnag, ychydig o athrawon sy'n pennu targedau tymor byr defnyddiol ar gyfer llythrennedd i helpu dysgwyr ganolbwyntio ar y meysydd y mae angen iddynt eu gwella fwyaf.

Mewn dosbarthiadau llythrennedd ar wahân, fel TGAU Saesneg neu adeiladu sgiliau, mae bron pob un o'r athrawon yn cynllunio'u gwersi yn dda. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cymell a'u bod yn cymryd rhan weithredol, a'u bod yn gwneud defnydd da o dechnoleg gwybodaeth dysgu ac adnoddau diweddar yn dda. Mae mwyafrif o athrawon yn arfarnu dysgu blaenorol ac yn cynllunio'n effeithiol, gan gynnwys cynllunio ar gyfer dysgwyr o allu gwahanol yn yr un dosbarth. Defnyddir holi yn fedrus gan fwyafrif o athrawon i herio dysgwyr. Fodd bynnag, mae ychydig o athrawon yn colli cyfleoedd i annog dysgwyr i ehangu'u gwybodaeth a'u medrau. Mae mwyafrif o athrawon yn defnyddio cymorth yn y dosbarth gan gynorthwywyr dysgu yn dda.

Mewn dosbarthiadau Safon Uwch a dosbarthiadau galwedigaethol, mae mwyafrif o athrawon yn rhoi adborth llafar adeiladol ar sut i wella llythrennedd a defnyddiant ganllaw marcio llythrennedd y coleg yn dda. Fodd bynnag, nid yw ychydig o athrawon yn marcio gwaith dysgwyr am gamgymeriadau llythrennedd yn gyson nac yn rhoi arweiniad ysgrifenedig clir i ddysgwyr ar sut i wella.

Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg sylweddol ar gael i ddysgwyr. Mae llawer o athrawon yn defnyddio terminoleg Gymraeg mewn dosbarthiadau dwyieithog yn fedrus i ymestyn defnydd ac ymwybyddiaeth dysgwyr o'r termau yn y ddwy iaith.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?**

**Barn: Da**

Mae'r coleg wedi datblygu cynllun medrau sy'n amlinellu'n glir y flaenoriaeth uchel y mae'n ei rhoi i wella medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol pob un o'r dysgwyr. Mae cyfrifoldeb strategol gan bennaeth cynorthwyol y coleg i gyflawni'r nod hon, a chaiff gymorth da i hyrwyddo'r nod gan ddau o reolwyr y coleg.

Mae'r cynllun medrau yn disgwyl i bob aelod o'r staff addysgu a dysgu i gymryd cyfrifoldeb am ddatblygu medrau dysgwyr, ac mae rheolwyr a chydlynwyr ym mhob coleg yn gweithio'n effeithiol i gynorthwyo pob aelod o staff i gyflawni'r weledigaeth hon.

Mae arweinwyr wedi gweithio'n rhagweithiol i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, ac maent wedi integreiddio'r defnydd o adnoddau WEST mewn meysydd rhaglenni yn llwyddiannus iawn, gan alluogi dysgwyr o bob gallu i symud ymlaen yn eu lefelau llythrennedd a rhifedd. Mae athrawon yn dadansoddi anghenion medrau pob dysgwr yn arbennig o dda, ac yn teilwra datblygiad i'r angen unigol hwn. Mae'r dadansoddi unigol manwl hwn yn sicrhau bod dysgwyr yn glir ynghylch gwerth datblygu'u medrau, a'u bod yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella a sut bydd hyn yn eu galluogi i symud ymlaen yn eu haddysg neu i mewn i gyflogaeth.

Mae'r grŵp medrau strategol yn cyfarfod bob tymor, ac mae'r aelodau yn cynnwys rheolwyr a chydlynwyr allweddol ar draws y coleg. Ceir agenda glir ar gyfer pob cyfarfod, gyda ffocws ar wella deilliannau medrau i ddysgwyr a thrafod mentrau cenedlaethol presennol. Mae rheolwyr a chydlynwyr yn cyfleu canlyniadau'r cyfarfodydd hyn yn effeithiol ac yn cynorthwyo'u staff yn dda i gyflawni cyfarwyddiadau'r grŵp hwn.

Mae rheolwyr ar draws y coleg yn glir ynglŷn â'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn y ddarpariaeth llythrennedd a rhifedd, ac mae ganddynt gynlluniau priodol ar gyfer datblygiad staff a rhannu arfer dda. Mae llawer o athrawon wedi mynychu sesiynau datblygiad staff ar sut i integreiddio llythrennedd a rhifedd yn eu gwersi, ac mae nifer o fideos defnyddiol a gynhyrchwyd gan y coleg ar gael i staff ar sut i wneud hyn. Mae mewnrwyd y coleg yn cadw amrywiaeth o adnoddau dysgu defnyddiol i athrawon medrau, gan gynnwys cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi, a defnyddir y rhain yn dda gan staff addysgu i wella cyflwyno medrau.

Mae'r coleg wedi gweithio'n dda iawn i gysylltu ei system olrhain a monitro ar-lein ei hun â'r offeryn cenedlaethol asesu cychwynnol WEST ac i ddod â thargedau ac olrhain cynnydd ynghyd ar gyfer prif gymwysterau a medrau. Fodd bynnag, megis dechrau cael ei ddatblygu y mae'r defnydd o'r system hon ar gyfer gosod targedau tymor byr ar gyfer gwella medrau, ac mae'n anghyson ar draws y coleg.

| Rhifedd |
| --- |

**Cyd-destun y maes dysgu**

Caiff rhifedd yn y coleg ei addysgu trwy ddosbarthiadau medrau hanfodol, dosbarthiadau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, dosbarthiadau TGAU ac ystod o ddosbarthiadau cyn TGAU, trwy ddosbarthiadau adeiladu sgiliau a chymorth i ddysgwyr. Hefyd, mae dysgwyr yn datblygu'u medrau rhifedd drwy eu prif raglenni astudio.

Mae'r coleg yn defnyddio'r offeryn cenedlaethol asesu cychwynnol ac asesu diagnostig i nodi anghenion medrau dysgwyr. Mae canlyniadau asesiadau cychwynnol ar gyfer 2016-2017 yn dangos bod 84% o ddysgwyr yn meddu ar fedrau rhifedd ar lefel 1 neu is pan fyddant yn cychwyn yn y coleg.

**Argymhellion y Maes Dysgu**

A1 Sicrhau bod targedau tymor byr perthnasol gan ddysgwyr sy'n eu helpu i ddatblygu'u medrau rhifedd

A2 Defnyddio holi yn fwy effeithiol i herio dysgwyr a'u hannog i ymestyn eu hymatebion

A3 Defnyddio'r canllaw marcio rhifedd, ynghyd ag adborth ysgrifenedig adeiladol, i helpu dysgwyr nodi meysydd gwella penodol

## Prif Ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Barn: Da

Dros gyfnod o dair blynedd, mae'r gyfradd y mae dysgwyr yn cwblhau cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yn llwyddiannus mewn Cymhwyso Rhif wedi gwella, ac mae wedi bod uwchlaw cymaryddion cenedlaethol.

Mae dysgwyr yn cwblhau'r asesiadau diagnostig cychwynnol cenedlaethol WEST ar ddechau eu cyrsiau. Maent yn gwybod deilliannau eu hasesiadau cychwynnol a'r lefelau targed y maent yn anelu i'w cyflawni. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwybod beth yw eu targedau rhifedd penodol tymor byr, ac maent yn datblygu'u medrau yn dda mewn dosbarthiadau rhifedd arbenigol. Fodd bynnag, mae ychydig o ddysgwyr yn llai ymwybodol o'u targedau, ac nid ydynt yn gwneud cynnydd digonol o ganlyniad i hynny. Mae llawer o ddysgwyr yn parhau i ddatblygu'u medrau drwy integreiddio rhifedd yn eu prif raglen ddysgu. Er enghraifft, mae dysgwyr TGCh yn defnyddio medrau rhifedd yn dda i greu offeryn trosi arian cyfredol ar gyfrifiadur.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da o ran datblygu'u medrau rhifedd ac maent yn defnyddio cyfleoedd i ddatblygu'u medrau drwy eu prif gymwysterau yn dda. Er enghraifft, mae myfyrwyr peirianneg yn cymhwyso medrau mesur trachywir i greu model 3D o gadair Hedd Wyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyfranogi'n dda mewn gwersi rhifedd ac yn canolbwyntio ar ddatblygu'u medrau gyda brwdfrydedd. Mewn llawer o sesiynau, gweithiant gyda'i gilydd yn effeithiol gan ddefnyddio'u medrau i gyfrifo atebion mewn tasgau perthnasol.

Mae bron pob dysgwyr yn cael adolygiadau medrau rheolaidd i gofnodi cynnydd a gosod targedau newydd. Maent yn monitro'u cynnydd yn erbyn eu targedau rhifedd yn effeithiol gan ddefnyddio systemau olrhain ar-lein y coleg, y gellir mynd iddynt ar ffonau symudol hefyd.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr Cymraeg eu hiaith yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda iawn mewn llawer o gyrsiau a addysgir yn ddwyieithog, a thrwy ddefnyddio adnoddau o offeryn asesu cychwynnol ar-lein WEST. Gallant gyflwyno aseiniadau yn Gymraeg, ni waeth beth yw cefndir neu allu ieithyddol yr athrawon.

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

### Barn: Da

Mae'r coleg yn defnyddio lefelau asesu cychwynnol a gwybodaeth am gyrhaeddiad blaenorol dysgwyr yn dda i osod dysgwyr mewn darpariaeth briodol.

Mae mwyafrif o athrawon yn gosod targedau tymor byr defnyddiol i wella medrau rhifedd dysgwyr unigol ac i fonitro ac adolygu cynnydd dysgwyr yn rheolaidd. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, mae targedau medrau rhifedd yn rhy gyffredinol.

O ganlyniad, nid yw dysgwyr bob amser yn glir ynghylch beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mewn dosbarthiadau rhifedd ar wahân, mae llawer o athrawon yn cynllunio ac yn cyflwyno sesiynau priodol i fodloni anghenion dysgwyr yn effeithiol. Defnyddiant ystod eang o strategaethau a gweithgareddau addysgu i gynnal diddordeb dysgwyr a sicrhau eu cyfranogiad. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi esboniadau clir o destunau a thasgau, ac yn annog dysgwyr i weithio atebion allan a gweithio drwy strategaethau cyfrifo yn gywir. Mae llawer o athrawon yn defnyddio adnoddau llythrennedd digidol i hwyluso dysgu annibynnol ac asesu cymheiriaid yn dda. Er enghraifft, mae athrawon yn rhoi cyfrifiaduron llechen i ddysgwyr medrau byw'n annibynnol i ddatblygu medrau rhifedd gartref ac yn amgylchedd y coleg.

Mewn mwyafrif o ddosbarthiadau galwedigaethol, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu'u medrau rhifedd annibynnol yn dda. Mewn lleiafrif o achosion, fodd bynnag, mae athrawon yn colli cyfleoedd sy'n codi'n naturiol i ddatblygu medrau rhifedd, ac mae dogfennau cynllunio yn cyfeirio'n gyffredinol yn unig at ddatblygu medrau rhifedd.

Mewn dosbarthiadau galwedigaethol, mae llawer o athrawon yn gallu esbonio cysyniadau mathemategol yn glir i ddysgwyr. Er enghraifft, mewn gwers microbioleg iechyd a gofal cymdeithasol, mae'r athro yn defnyddio nifer o graffiau yn fedrus i drafod dadansoddi data a thueddiadau, ac mae'n cadarnhau drwy holi cwestiynau fod dysgwyr yn deall y defnydd o'r data a'i arwyddocâd. Mewn adeiladu, mae athrawon yn sicrhau bod dysgwyr yn cymhwyso medrau mesur a chyfrifo yn gywir mewn gosod brics.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth llafar gwerthfawr ar ddatblygiad i ddysgwyr unigol. Mae llawer o athrawon yn marcio gwaith yn rheolaidd am gywirdeb, ac mae ychydig o athrawon yn defnyddio'r canllaw marcio rhifedd a gyflwynwyd yn ddiweddar gan y coleg i helpu dysgwyr nodi a chywiro camgymeriadau rhifedd. Fodd bynnag, nid yw'r canllaw hwn yn cael ei ddefnyddio'n gyson, ac o ganlyniad, nid yw ychydig o ddysgwyr yn elwa o adborth ysgrifenedig adeiladol ar sut i wella.

Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg sylweddol ar gael i ddysgwyr. Mae llawer o athrawon yn defnyddio terminoleg Gymraeg mewn dosbarthiadau dwyieithog yn fedrus i ymestyn defnydd ac ymwybyddiaeth dysgwyr o'r termau yn y ddwy iaith.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?**

**Barn: Da**

Mae'r coleg wedi datblygu cynllun medrau sy'n amlinellu'n glir y flaenoriaeth uchel y mae'n ei rhoi i wella medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol pob un o'r dysgwyr. Mae cyfrifoldeb strategol gan bennaeth cynorthwyol y coleg i gyflawni'r nod hon, a chaiff gymorth da i hyrwyddo'r nod gan ddau o reolwyr y coleg.

Mae'r cynllun medrau yn disgwyl i bob aelod o'r staff addysgu a dysgu gymryd cyfrifoldeb am ddatblygu medrau dysgwyr, ac mae rheolwyr a chydlynwyr ym mhob coleg yn gweithio'n effeithiol i gynorthwyo pob aelod o staff i gyflawni'r weledigaeth hon.

Mae arweinwyr wedi gweithio'n rhagweithiol i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, ac maent wedi integreiddio'r defnydd o adnoddau WEST mewn meysydd rhaglenni yn llwyddiannus iawn, gan alluogi dysgwyr o bob gallu i symud ymlaen yn eu lefelau llythrennedd a rhifedd. Mae athrawon yn dadansoddi anghenion medrau pob dysgwr yn arbennig o dda, ac yn teilwra datblygiad i'r angen unigol hwn. Mae'r dadansoddi unigol manwl hwn yn sicrhau bod dysgwyr yn glir ynghylch gwerth datblygu'u medrau, a'u bod yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella a sut bydd hyn yn eu galluogi i symud ymlaen yn eu haddysg neu i mewn i gyflogaeth.

Mae'r grŵp medrau strategol yn cyfarfod bob tymor, ac mae'r aelodau'n cynnwys rheolwyr a chydlynwyr allweddol ar draws y coleg. Ceir agenda glir ar gyfer pob cyfarfod, gyda ffocws ar wella deilliannau medrau i ddysgwyr a thrafod mentrau cenedlaethol presennol. Mae rheolwyr a chydlynwyr yn cyfleu canlyniadau'r cyfarfodydd hyn yn effeithiol ac yn cynorthwyo'u staff yn dda i gyflawni cyfarwyddiadau'r grŵp hwn.

Mae rheolwyr ar draws y coleg yn glir ynglŷn â'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn y ddarpariaeth llythrennedd a rhifedd, ac mae ganddynt gynlluniau priodol ar gyfer datblygiad staff a rhannu arfer dda. Mae llawer o athrawon wedi mynychu sesiynau datblygiad staff ar sut i integreiddio llythrennedd a rhifedd yn eu gwersi, ac mae nifer o fideos defnyddiol a gynhyrchwyd gan y coleg ar gael i staff ar sut i wneud hyn. Mae mewnrwyd staff y coleg yn cadw amrywiaeth o adnoddau addysgu defnyddiol i athrawon medrau, gan gynnwys cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi, a defnyddir y rhain yn dda gan staff addysgu i wella cyflwyno medrau.

Mae'r coleg wedi gweithio'n dda iawn i gysylltu ei system olrhain a monitro dysgwyr ar-lein ei hun â'r offeryn cenedlaethol asesu cychwynnol WEST ac i ddod â thargedau ac olrhain cynnydd ynghyd ar gyfer prif gymwysterau a medrau. Fodd bynnag, megis dechrau cael ei ddatblygu y mae'r defnydd o'r system hon ar gyfer gosod targedau tymor byr ar gyfer gwella medrau, ac mae'n anghyson ar draws y coleg.

| Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid |
| --- |

## Cyd-destun y maes dysgu

Mae'r ddarpariaeth astudiaethau tir yng nghampws Glynllifon yn cynnig cyrsiau mewn amaethyddiaeth, astudiaethau anifeiliaid a nyrsio milfeddygol, coedwigaeth a rheoli cefn gwlad, ac astudiaethau ceffylau. Mae hefyd yn cynnwys cyrsiau mewn peirianneg yn seiliedig ar y tir, er nad oedd y rhain o fewn cwmpas yr arolygiad hwn. Mae'r campws yn cynnig ystod eang o gyrsiau byr ar gyfer y diwydiant tir hefyd. Mae fferm Glynllifon, yn cynnwys y coetir, yn ymestyn i 300 hectar, ac mae'n ganolfan ar gyfer arloesi mewn ffermio moch a gwartheg bîff. Mae ganddi ei buches odro a'i diadell ddefaid ei hun hefyd.

Mae dysgwyr yn mynychu'r coleg o ardal ddaearyddol eang ac mae hostel ar y safle i dderbyn y dysgwyr hynny na fyddai modd iddynt deithio'n ddyddiol. Yn 2015-2016, roedd y maes dysgu yn cyfrif am ryw 3% o ddarpariaeth gyfan y coleg. Yn 2016-2017, mae tua 260 o ddysgwyr wedi cofrestru ar gyrsiau amser llawn yn y maes dysgu.

**Argymhellion y maes dysgu**

A1 Gwella dilyniant dysgwyr rhwng lefelau dysgu

A2 Datblygu a gweithredu strategaeth i ddatblygu cymhwysedd digidol dysgwyr mewn gwersi a sesiynau ymarferol

A3 Cynorthwyo athrawon i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau dysgu, gan gynnwys technoleg gwybodaeth dysgu, i wella profiad dysgu dysgwyr

A4 Sicrhau bod yr holl athrawon yn datblygu gweithgareddau effeithiol yn eu cynlluniau gwersi i ddarparu ar gyfer holl lefelau galluoedd dysgwyr

A5 Gwella trylwyrder arfarnu a hunanasesu yr holl ddarpariaeth astudiaethau tir er mwyn llywio cynllunio a rheoli datblygu ansawdd

**Prif Ganfyddiadau**

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Barn: Da**

Yn 2015-2016, fe wnaeth dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau amaethyddol a chyrsiau astudiaethau tir gwblhau eu prif gymwysterau ar raddfeydd uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol. Ar gyfer y prif gymwysterau astudiaethau tir yn 2015-2016, mae gan ddwy ran o dair o gyrsiau gyfraddau cwblhau llwyddiannus sydd uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol.

Mae lleiafrif o ddysgwyr yn symud ymlaen o raglenni lefel 1 i raglenni lefel 2. Fodd bynnag, mae gormod ohonynt yn parhau i astudio ar yr un lefel. Mae dysgwyr ar raglenni lefel 3 yn symud ymlaen i addysg uwch a chyflogaeth ar gyfraddau da.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da ar eu cyrsiau ac yn gweithio ar y safon sy'n briodol i lefel eu cymhwyster, neu'n well. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu ac yn dangos cymhwysedd ymarferol cadarn wrth wynebu ystod eang o dasgau ymarferol. Er enghraifft, mae dysgwyr yn cymryd cyfrifoldeb am odro buches odro'r coleg, gan ymgymryd â'r holl dasgau cysylltiedig fel hylendid, gosod a thynnu cwpanau godro, a dipio tethi ar ôl godro.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn dangos lefel dda o wybodaeth theori yn gysylltiedig â'u harbenigedd. Gallant gofio dysgu blaenorol a'i gymhwyso i sefyllfaoedd newydd yn hyderus. Er enghraifft, mae dysgwyr gofal ceffylau yn gallu esbonio achosion castiau ceffylau mewn stabl a gallant awgrymu ymyriadau priodol i leihau'r ymddygiad hwn.

Mae gan bron pob dysgwr dargedau clir yn gysylltiedig â phresenoldeb, gwaith cwrs, llythrennedd a rhifedd. Gwneir cynnydd cadarn gan y rhan fwyaf o ddysgwyr wrth ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r holl ddysgwyr yn gweithio'n ddiogel mewn gweithdai ac yn ystod sesiynau ymarferol, a gwnânt ddefnydd priodol o offer amddiffyn personol. Er enghraifft, mae

dysgwyr rheolaeth coedwigaeth yn asesu risg gweithgareddau yn dda i gytuno pa offer diogelwch ychwanegol penodol i'r swydd yr oedd eu hangen arnynt wrth glirio ffosydd. Yn ystod wyna, mae dysgwyr gofal anifeiliaid yn cymryd rhagofalon bioddiogelwch da ac yn esbonio canlyniadau hwsmonaeth wael, fel milheintiau.

Mae dysgwyr yn manteisio ar gyfleoedd dysgu dwyieithog yn dda, ac mae llawer o ddysgwyr Cymraeg eu hiaith yn cyflwyno aseiniadau yn Gymraeg i safon uchel. Mae llawer o ddysgwyr Cymraeg eu hiaith yn defnyddio termau technegol Cymraeg yn hyderus ac mae llawer ohonynt yn cynnal sgyrsiau technegol, gan newid rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn hyderus ac yn rhugl. Mae dysgwyr yn parchu gwahaniaethau rhanbarthol ei gilydd o ran defnyddio iaith.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Barn: Da**

Mae'r maes dysgu yn darparu ystod eang o gyrsiau a chyfleoedd hyfforddi ar lefelau sy'n bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr.

Mae gwybodaeth bynciol a gwybodaeth dechnegol ddiweddar gan bron pob un o'r athrawon, a defnyddiant y wybodaeth yn dda i wneud sesiynau yn berthnasol i ddiddordebau galwedigaethol dysgwyr. Mae bron pob un ohonynt yn cynllunio sesiynau yn dda ac yn pennu amcanion clir y maent yn eu hesbonio i ddysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cymell dysgwyr yn dda, gan eu hannog i wneud cynnydd da yn eu dysgu.

Mae proffiliau defnyddiol o anghenion dysgu dysgwyr gan bob athro bron, ac mae llawer yn defnyddio'r rhain yn dda i gynllunio gwersi sy'n darparu tasgau heriol a phriodol i ddysgwyr o bob gallu. Fodd bynnag, nid yw ychydig o athrawon yn defnyddio'r proffiliau yn ddigon da wrth gynllunio ar gyfer dysgwyr ag ystod o alluoedd.

Mae ystod eang o adnoddau a chyfleusterau dysgu gan y maes dysgu. Mae ychydig o athrawon yn defnyddio llwyfan ystafell ddosbarth rithwir ac yn annog dysgwyr i ddefnyddio'r adnoddau hyn. Mae ychydig ohonynt yn annog dysgwyr i ddefnyddio TGCh yn y dosbarth. Ar y cyfan, fodd bynnag, nid yw athrawon yn gwneud digon i gynllunio tasgau i ddatblygu medrau llythrennedd digidol dysgwyr.

Mae bron pob un o'r athrawon yn cadw cofnod cynhwysfawr o gyflawniadau'r holl ddysgwyr ac yn darparu adborth clir a defnyddiol ar beth sydd angen iddynt ei wneud i wella safon eu gwaith.

Ceir adnoddau da ar Fferm Glynllifon, ac mae ganddi ychydig o gyfleusterau sydd ymhlith y gorau yn y diwydiant. Er enghraifft, mae dysgwyr amaethyddiaeth yn cael profiad o gylch cynhyrchu porc a bacwn mewn uned foch arloesol. Mae cynlluniau cwricwlwm yn rhoi ystyriaeth dda i natur dymhorol cyrsiau astudiaethau tir, er enghraifft drwy sicrhau bod dysgwyr yn cael profiad ymarferol o wyna.

Mae'r maes dysgu yn ymgysylltu'n dda â chyflogwyr a chwmnïau allanol. Mae'n datblygu'r perthnasoedd hyn yn dda, er enghraifft drwy ymweliadau â ffermydd. Ceir

ystod ddefnyddiol o weithgareddau profiad gwaith sydd ar gael i bob dysgwr. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddysgu am entrepreneuriaeth a datblygu cynaliadwy.

Mae llawer o athrawon yn darparu cyfleoedd helaeth i ddysgwyr ddatblygu medrau Cymraeg ar bob lefel. Mae'r ddarpariaeth ddwyieithog yn dda iawn, ac mae staff nad ydynt yn siarad Cymraeg yn darparu ac yn hyrwyddo adnoddau cyfrwng Cymraeg.

Mae athrawon yn rhoi gwybodaeth gyson i rieni am gynnydd dysgwyr drwy ddiweddariadau rheolaidd a defnyddiol.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?**

**Barn: Digonol**

Mae rheolwyr a staff amaethyddiaeth yn rhannu ymrwymiad clir i ddatblygu coleg y fferm, ynghyd â gweledigaeth ar ei chyfer. Defnyddiant gyngor ac arbenigedd panel fferm cyngor y coleg yn dda mewn cynllunio strategol. Mae'r cynllunio yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol a blaenoriaethau'r diwydiant, fel ei fuddsoddiad mewn datblygu canolfan ar gyfer arloesi mewn datblygu moch ac eidion. Mae pob un o'r staff amaethyddiaeth wedi bod yn gysylltiedig â'r datblygiad hwn, ac mae'r cwricwlwm yn sicrhau bod dysgwyr yn derbyn profiad buddiol yn yr agweddau hyn ar ffermio. Nid yw'r cynllunio strategol ar gyfer agweddau eraill ar y ddarpariaeth nad ydynt yn ymwneud ag amaethyddiaeth wedi'i ddiffinio mor glir.

Ceir cyfathrebu clir gyda champws Glynllifon. Mae staff yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu perfformiad cyrsiau a dysgwyr, gan roi sylw da i fonitro a chefnogi dysgwyr sydd mewn perygl o adael yn gynnar. Mae hyn wedi helpu gwella cyfraddau cadw dysgwyr. Mae'r maes dysgu yn defnyddio llwyfan ar y rhyngrwyd yn dda i wella cyfathrebu ac i helpu staff rannu data perfformiad ac adnoddau dysgu. Mae staff y maes dysgu yn wybodus ynglŷn â datblygiadau ar draws y coleg drwy ystod eang o systemau cyfathrebu.

Mae cynlluniau yn rhoi ystyriaeth dda i ofynion cyflogwyr amaethyddol lleol a rhanbarthol. Mae ystod eang o gyrsiau rhan-amser y coleg yn bodloni anghenion cyflogwyr amaethyddol yn dda.

Trafodir materion ansawdd gan staff yn eu cyfarfodydd rheolaidd. Fodd bynnag, mae bylchau pwysig yn hunanarfarniad y coleg o'r ddarpariaeth astudiaethau tir. Nid yw ei adroddiad hunanarfarnu yn ddigon arfarnol, ac nid yw ychwaith yn rhoi digon o ystyriaeth i effaith mentrau, ac nid yw'n seilio ei ganfyddiadau ar ddadansoddi tystiolaeth yn effeithiol. Mewn rhai meysydd, mae'r adroddiad yn canolbwyntio gormod ar ddysgwyr amaethyddol, gan esgeuluso agweddau eraill ar y ddarpariaeth. Nid yw'r hunanarfarnu yn rhoi digon o ystyriaeth systematig i adborth dysgwyr. Mae'r diffygion hyn yn arwain at gynllun datblygu ansawdd nad yw'n cael ei lywio gan arfarnu trylwyr o gryfderau a gwendidau'r maes dysgu.

Mae'r maes dysgu yn gweithio'n dda gydag ystod eang o bartneriaid. Mae staff wedi gweithio'n agos ac ar y cyd â chydweithwyr eraill a Cyswllt Ffermio i ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru i gefnogi arloesi amaethyddol. Mae ganddo

gysylltiadau cryf ag ysgolion, ac mae'n darparu dysgu i ryw 250 o ddisgyblion 14 i 16 oed bob blwyddyn. Ceir llawer o enghreifftiau o'r dysgwyr hyn yn symud ymlaen i gyrsiau coleg amser llawn. Mae'r maes dysgu wedi cydweithredu'n dda gyda choleg cyfagos i leihau cystadleuaeth, gan sicrhau bod niferoedd ymarferol ar gyrsiau llai poblogaidd, fel ffrwythloni artiffisial a thrimio traed.

Mae tudalen weithgar gan y fferm ar y cyfryngau cymdeithasol, ac mae'n rhoi gwybodaeth dda i ddysgwyr a'r gymuned amaethyddiaeth am weithgareddau.

Ceir trefniadau da ar gyfer monitro cyllidebau a rhagolygon ariannol yn rheolaidd. Mae'r maes dysgu yn defnyddio cyllid allanol yn dda i wella ei adnoddau. Mae'n elwa o gysylltiadau cadarn â diwydiant sy'n rhoi neu'n benthyg offer, gan alluogi dysgwyr i ddysgu medrau ar yr offer mwyaf diweddar. Mae buddsoddi yng nghyfleuster y fferm wedi creu ychydig o adnoddau rhagorol, fel y tŷ moch, i baratoi dysgwyr yn dda ar gyfer cyflogaeth. Fodd bynnag, nid yw agweddau eraill ar y ddarpariaeth nad ydynt yn ymwneud ag amaethyddiaeth wedi'u datblygu gystal.

| Safon Uwch |
|---|

**Cyd-destun y maes dysgu**

Cynigir darpariaeth Safon Uwch ym mhob un o bum prif gampws y coleg. Mae'r campysau hyn wedi'u gwasgaru dros ardal ddaearyddol eang ac maent yn gwasanaethu cymunedau a grwpiau o ddysgwyr gwahanol iawn yn y cymunedau hynny. Canolfannau trydyddol sydd wedi'u sefydlu ers tro ym Mhwllheli a Dolgellau, ynghyd â Chweched y Rhyl, a agorodd yn 2010, yw'r prif ddarparwyr addysg Safon Uwch ar gyfer eu hardaloedd. Mae campysau yn Llandrillo-yn-Rhos a Bangor yn golegau addysg bellach cyffredinol sy'n cynnig cyrsiau Safon Uwch ochr yn ochr â darpariaeth alwedigaethol. Rheolwyr meysydd rhaglenni perthnasol ym mhob coleg sy'n rheoli cyrsiau Safon Uwch yn y colegau hyn. At ei gilydd, mae'r coleg yn darparu ar gyfer dros 550 o ddysgwyr sy'n astudio ar gyfer cyfanswm o dros 1,600 o gymwysterau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol unigol.

Mae rhyw bedwar o bob deg dysgwr ar draws y coleg yn cynnal y rhan fwyaf o sgyrsiau yn Gymraeg. Ym Mhwllheli a Dolgellau, caiff bron yr holl bynciau Safon Uwch eu cyflwyno'n ddwyieithog, ac yn 2016, fe wnaeth dysgwyr sefyll 47% o'r holl arholiadau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Argymhellion y maes dysgu**

A1 Sicrhau bod dysgwyr Safon uwch yn ennill graddau da o gymharu â'u mannau cychwyn

A2 Sicrhau bod athrawon yn darparu lefel uchel o her mewn gwersi er mwyn galluogi'r holl ddysgwyr i wneud cynnydd cadarn

A3 Gwella cadernid a chywirder yr hunanarfarnu ar draws yr holl ddarpariaeth Safon Uwch

## Prif Ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Barn: Digonol

Dros gyfnod o dair blynedd, mae'r cyfraddau cwblhau llwyddiannus (dysgwyr sy'n cwblhau'r cwrs ac yn llwyddo yn eu harholiadau) ar gyfer dysgwyr Safon Uwch wedi gwella o ychydig islaw'r cymharydd cenedlaethol yn 2013-2014 i ychydig uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol yn 2015-2016. Mae cyfraddau llwyddo yn amrywio rhwng safleoedd. Ym Mhwllheli a Dolgellau, mae dysgwyr y canolfannau trydyddol yn cwblhau eu cyrsiau Safon Uwch yn llwyddiannus ar gyfraddau uchel. Fodd bynnag, mae gormod o ddysgwyr nad ydynt yn cwblhau eu cyrsiau Safon Uwch a Safon Uwch Gyfrannol yn llwyddiannus ym Mangor.

Mae cyfraddau llwyddo yn amrywio ar gyfer gwahanol bynciau Safon Uwch ar draws y coleg. Er enghraifft, mae cyfraddau llwyddo yn uchel ar gyfer cyrsiau fel Ffrangeg, astudiaethau ffilm a thechnoleg dylunio. Fodd bynnag, ar gyfer cyrsiau fel cyfrifiadura, electroneg, gwyddoniaeth, y gyfraith a Saesneg, mae cyfraddau llwyddo dysgwyr gryn dipyn islaw cymaryddion cenedlaethol. Ar draws yr holl ganolfannau, mae gormod o ddysgwyr nad ydynt yn cyflawni graddau Safon Uwch a Safon Uwch Gyfrannol y gallent eu cyflawni, ar sail eu cymwysterau blaenorol, gan gynnwys lle mae dysgwyr yn ymuno â'r coleg â graddau TGAU uchel yn gyffredinol.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud defnydd gwerthfawr o systemau electronig i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd, i olrhain eu cynnydd yn erbyn eu targedau, ac i ymateb i adborth gan diwtoriaid. Mae dealltwriaeth glir gan y dysgwyr hyn o'r cynnydd y maent yn ei wneud tuag at dargedau penodol i bwnc, yn ogystal â beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu medrau, sy'n gadarn ymhlith dysgwyr Safon Uwch.

Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn cymhwyso'u gwybodaeth a'u medrau i gyd-destunau newydd yn effeithiol. Mae llawer yn defnyddio terminoleg penodol i bwnc a therminoleg dechnegol yn briodol a chywir, ac mae'r mwyafrif yn gallu dangos enghreifftiau o gysyniadau allweddol yn dda. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddysgwyr yn cyfrannu'n rhagweithiol at wersi, a dim ond ymatebion cyfyngedig y maent yn eu darparu i gwestiynau. Nid yw dysgwyr o allu uwch, yn benodol, yn cael eu herio'n ddigonol i ymestyn eu hymatebion.

Mae medrau iaith Cymraeg a Saesneg cadarn gan fwyafrif o ddysgwyr. Mae llawer o ddysgwyr ym Mhwllheli a Dolgellau yn fedrus yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg i safon uchel. Mae ychydig o dan hanner y dysgwyr hyn yn dewis sefyll arholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn ymddwyn yn dda iawn, maent yn canolbwyntio'n dda ac yn dangos parch at ei gilydd a'u hathrawon. Mae llawer ohonynt yn hyderus ac yn esmwyth yn rhyngweithio gydag athrawon pan gânt y cyfle, ac mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio'n dda yn annibynnol ac mewn grwpiau. Mae llawer o ddysgwyr yn ymfalchïo yng nghyflwyniad eu gwaith ac maent yn cadw ffeiliau trefnus.

Mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn ymgysylltu'n weithredol â gweithgareddau cyfoethogi gwerthfawr, gan gynnwys y rheiny sy'n cynrychioli'r coleg mewn amrywiaeth o gystadlaethau lleol a chenedlaethol lefel uchel. Mae llawer o ddysgwyr Safon Uwch ar draws y coleg yn symud ymlaen yn llwyddiannus i addysg uwch mewn amryw o brifysgolion.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Barn: Da**

Mae'r coleg yn cynnig ystod gynhwysfawr o gyrsiau Safon Uwch ar draws ei bum prif safle. Gwna ddefnydd da o gysylltiadau gydag ysgolion lleol i gyflwyno'r ddarpariaeth hon. Mae newidiadau diweddar wedi cael effaith gadarnhaol ar addysgu a phrofiad dysgwyr, ac ar y cyfan, mae'r ddarpariaeth ar gyfer Safon Uwch yn gadarn.

Mae bron pob un o'r dysgwyr Safon Uwch yn ennill profiad cymunedol gwerthfawr drwy ystod o gyfleoedd allgyrsiol fel y 'Sioe gerdd' flynyddol a thrwy gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Caiff dysgwyr gyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau ysgrifennu traethodau a'u medrau meddwl lefel uwch yn effeithiol drwy ystod o ddarpariaeth ychwanegol, fel y clwb trafod poblogaidd, yn ogystal â chymwysterau ychwanegol mewn medrau ehangach.

Mae gwybodaeth bynciol gadarn a dealltwriaeth glir o ofynion cyrff dyfarnu gan lawer o athrawon. Mae llawer ohonynt yn fodelau rôl iaith effeithiol iawn sy'n cefnogi dysgwyr yn dda iawn i ddatblygu geirfa dechnegol. Mae llawer o wersi yn cynnwys amcanion dysgu clir, ac mae llawer o athrawon yn paratoi adnoddau diddorol a defnyddiol. Mae'r mwyafrif o athrawon yn darparu ystod addas o weithgareddau dysgu. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae gormod o gyfarwyddyd gan athrawon, ac mae hyn yn cyfyngu cyfleoedd i ddysgwyr gyfrannu. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw gweithgareddau yn herio pob un o'r dysgwyr, yn enwedig y rhai mwy abl. Yn y gwersi hyn, nid yw dysgwyr yn gwneud cynnydd digonol.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio holi yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw ychydig o athrawon yn galluogi dysgwyr i ddarparu ymatebion estynedig. Mae llawer o athrawon yn defnyddio system olrhain ryngweithiol y coleg yn dda i fonitro cynnydd ac maent yn rhoi adborth penodol ar sut i wella. Yn gyffredinol, mae hyn yn helpu dysgwyr, ond mae ansawdd yr adborth a mynychder asesiadau yn anghyson ar draws y maes dysgu.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio profiadau dysgu cadarnhaol i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu medrau rhifedd cadarn. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyniadau, treialon ffug a gweithgareddau chwarae rôl i ddatblygu medrau llefaredd. Mae llawer yn defnyddio marcio llythrennedd targedig i ddarparu adborth defnyddiol i wella ysgrifennu dysgwyr. Mewn pynciau perthnasol, yn enwedig gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a phynciau'n gysylltiedig â mathemateg, mae athrawon yn datblygu medrau rhifedd dysgwyr yn effeithiol.

Mae gan y campysau ym Mhwllheli a Dolgellau yn benodol hunaniaeth Gymreig gryf iawn, ac maent yn annog dysgwyr i ddod yn ddinasyddion Cymreig naturiol

ddwyieithog a balch. Mae athrawon Safon Uwch yn y campysau hyn yn defnyddio Cymraeg a Saesneg yn fedrus wrth gyflwyno yn yr ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig mewn Safon Uwch ar y safleoedd eraill yn gyfyngedig.

Caiff dysgwyr gyfleoedd buddiol i ymchwilio i ddinasyddiaeth fyd-eang a datblygu cynaliadwy drwy wersi Bagloriaeth Cymru a Safon Uwch. Mae'r maes dysgu yn darparu cymorth personol effeithiol i ddysgwyr Safon Uwch. Ceir sesiynau tiwtorial rheolaidd, sy'n cynnwys adolygiadau un-i-un buddiol o'u cynnydd a'u lles. Hefyd, mae tiwtoriaid personol yn darparu cymorth a chyngor pwrpasol i ddysgwyr Safon Uwch ar eu llwybrau dilyniant ar ôl cwblhau eu cyrsiau.

Mae ethos o barch a chynwysoldeb ar draws yr holl safleoedd, ac mae dysgwyr Safon Uwch yn teimlo eu bod yn aelodau gwerthfawr o gymuned y coleg. Mae'r holl ystafelloedd dosbarth yn cynnwys cyfarpar da, maent yn addas i'r diben ac yn adlewyrchu hunaniaeth y pwnc.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?**

**Barn: Da**

Yn gyffredinol, mae dealltwriaeth gadarn gan reolwyr yn y maes dysgu o'r prif gryfderau a meysydd i'w gwella, ac maent wedi cymryd camau pendant i fynd i'r afael ag agweddau y mae angen eu gwella. Er mwyn ymateb i berfformiad gwan yn 2014, cynhaliodd rheolwyr adolygiad mewnol defnyddiol o'r ddarpariaeth a pherfformiad Safon Uwch. Arweiniodd hyn at nifer o welliannau, ac mae'r rhain wedi dechrau cael effaith gadarnhaol. Er enghraifft, mae cyfraddau llwyddo a chanlyniadau UG wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf ac mae'r ddarpariaeth wedi'i chryfhau.

Mae'r coleg yn rheoli Safon Uwch o fewn meysydd rhaglenni sy'n berthnasol i bob pwnc. Mewn llawer o achosion, mae gan arweinwyr pob maes rhaglen ddealltwriaeth gadarn o ofynion y cyrsiau Safon Uwch a dealltwriaeth addas o berfformiad pob maes. Fodd bynnag, nid oes trosolwg strategol clir o berfformiad Safon Uwch ar draws bob un o'r safleoedd gwahanol. Mae hyn yn arwain, er enghraifft, at ormod o amrywio yn ansawdd yr adroddiadau hunanasesu a chynlluniau datblygu.

Caiff y broses o ddadansoddi perfformiad Safon Uwch ei hymgorffori mewn systemau sefydledig ar gyfer hunanasesu ar lefelau pwnc, meysydd rhaglen, colegau unigol a thraws-golegol. Mae ystod o ddata priodol ar gael i reolwyr arfarnu perfformiad Safon Uwch, ond ceir anghysondeb wrth ddadansoddi'r data hwn ar draws y coleg. Mae ystod y data a ddefnyddir a natur dadansoddi data yn gwahaniaethu ar draws pynciau a dadansoddiadau, ac mae barnau, ar rai achlysuron, yn rhy hael.

Mae'r maes dysgu wedi cryfhau ei brosesau'n ddiweddar ar gyfer gosod targedau i ddysgwyr. Erbyn hyn, mae targedau dysgwyr yn fwy priodol o uchelgeisiol, ac mae dealltwriaeth glir gan athrawon a dysgwyr o'r cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud tuag at gyflawni eu graddau targed.

Mae’r maes dysgu wedi gweithio’n llwyddiannus gydag ychydig o ysgolion uwchradd lleol i ymestyn ystod y ddarpariaeth a’r cyfleoedd sydd ar gael i’w ddysgwyr ei hun a dysgwyr mewn ysgolion lleol. Ceir trefniadau addas ar gyfer sicrhau ansawdd y ddarpariaeth hon.

Mae cyfarfodydd cwricwlwm a chyfarfodydd ansawdd bob tymor yn cynnig fforwm defnyddiol i arweinwyr drafod perfformiad Safon Uwch ar draws y coleg ac i rannu arfer dda. Yn ogystal, ceir cyfleoedd gwerthfawr i athrawon yr un pynciau Safon Uwch ar draws y safleoedd gwahanol rannu syniadau ac adnoddau. Mae’r rhain yn cynnwys diwrnodau hyfforddi a system gyfeillio.

| Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu |
|---|

## Cyd-destun y maes dysgu

Mae’r maes dysgu yn cyflwyno ystod eang o gyrsiau peirianneg dros chwe safle. Mae llawer o gyrsiau amser llawn ar gael o lefel 1 i lefel 3. Mae’r maes dysgu yn darparu rhaglenni cyswllt ysgolion a chyrsiau lefel uwch yn y mwyafrif o arbenigeddau peirianneg.

Yn 2015-2016, roedd y maes dysgu yn cyfrif am ryw 9% o ddarpariaeth gyfan y coleg. Yn 2016-2017, mae tua 500 o ddysgwyr amser llawn wedi’u cofrestru ar gyrsiau ar draws safleoedd y coleg ar hyn o bryd. Yn ystod yr arolygiad, cafodd y ddarpariaeth UG a Safon Uwch mewn pynciau yn gysylltiedig â pheirianneg ei harolygu yn y maes dysgu Safon Uwch.

## Argymhellion y maes dysgu

A1 Sicrhau bod targedau tymor byr perthnasol gan ddysgwyr sy’n eu helpu i ddatblygu’u medrau llythrennedd a rhifedd

A2 Gwella ansawdd adborth ysgrifenedig a roddir i ddysgwyr

A3 Gwella arferion holi athrawon

A4 Cryfhau hunanasesu

A5 Nodi a rhannu arfer orau yn fwy effeithiol

## Prif Ganfyddiadau

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau?

## Barn: Da

Dros y tair blynedd diwethaf, mae dysgwyr sy’n dilyn cyrsiau mewn peirianneg wedi cwblhau eu cymwysterau’n llwyddiannus ar gyfraddau sy’n gyson uwchlaw’r cymharydd cenedlaethol. Mae perfformiad y maes dysgu yn gosod y coleg yn yr hanner uchaf o golegau sy’n cyflwyno darpariaeth debyg dros y tair blynedd diwethaf.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf tuag at gyflawni eu cymwysterau. Maent yn deall yn glir y cynnydd maent yn ei wneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i gwblhau eu cwrs. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos cymhwysedd ymarferol cadarn wrth ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau ymarferol, fel defnyddio ystod o offer llaw, a marcio a defnyddio offer mesur. Mae dysgwyr weldio yn cynhyrchu gwaith o ansawdd arbennig o uchel, ac mae dysgwyr mecaneg yn cynhyrchu gwaith cymhleth a thrachywir. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae dysgwyr yn defnyddio offer mesur yn dda i archwilio'u gwaith gorffenedig i sicrhau ei fod yn bodloni'r fanyleb ofynnol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos gwybodaeth theori briodol. Maent yn cysylltu theori â thasgau ymarferol yn dda, ac yn gyffredinol mae gwaith ysgrifenedig wedi'i gyflwyno'n dda heb fawr o wallau sillafu neu wallau gramadegol. Mae ychydig o ddysgwyr yn dangos gwybodaeth theori a dealltwriaeth ar lefelau uwch. Mae'r dysgwyr hyn yn cyflwyno'u gwaith ysgrifenedig i safon arbennig o uchel, ac maent yn hyderus wrth ymgymryd â thasgau theori cymhleth ac ateb cwestiynau. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, nid yw lluniadau a brasluniau wedi'u cyflwyno'n dda ac mae diffyg sylw i fanylion. Mewn llawer o achosion, mae dysgwyr yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda pan fyddant yn cwblhau tasgau ymarferol, er enghraifft wrth gyfrifo dimensiynau ar gyfer deunyddiau neu gymysgu cyfrannau.

Mae'r holl ddysgwyr yn ymgymryd â sgrinio cychwynnol ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Mae mwyafrif ohonynt yn ymwybodol o'u lefelau cychwynnol mewn llythrennedd a rhifedd a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif yn siŵr o'u targedau a beth sydd angen iddynt ei wneud yn y tymor byr er mwyn gwella.

Mae siaradwyr Cymraeg eu hiaith yn defnyddio'u medrau Cymraeg llafar yn dda i ymgysylltu ag athrawon, i ateb cwestiynau neu i siarad â chyfoedion mewn ystafelloedd dosbarth a gweithdai. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n dewis cyflwyno'u gwaith ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mewn ystafelloedd dosbarth, gweithdai ac o amgylch y coleg, mae dysgwyr yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch at eu cyfoedion, athrawon a'r amgylchedd. Mewn sesiynau gweithdy, mae dysgwyr yn dangos dealltwriaeth glir o iechyd a diogelwch. Mae bron pob dysgwr yn cyfranogi ac yn mwynhau eu dysgu, ac mae llawer yn cael eu cymell i symud ymlaen i'r lefel nesaf. O ganlyniad i fynychu eu cwrs, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn magu hyder a hunan-barch. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan y coleg a'u hathrawon.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Barn: Da**

Mae'r maes dysgu yn cynnig ystod eang o gyrsiau sy'n bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned ehangach yn dda.

Mae gwybodaeth bynciol a gwybodaeth dechnegol ddiweddar gan bron pob un o'r athrawon. Mae disgwyliadau uchel o'u dysgwyr gan y mwyafrif o athrawon, ac maent yn hyrwyddo perthnasoedd gweithio cadarnhaol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn

cynllunio'u gwersi yn dda ac yn defnyddio ystod briodol o strategaethau addysgu a dysgu. Fodd bynnag, ceir diffyg rhediad a her mewn ychydig o sesiynau ac mae'r dysgwyr yn rhy oddefol. Yn gyffredinol, nid yw athrawon yn defnyddio cwestiynau estynedig, treiddgar i herio dysgwyr yn ddigon da.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio asesiadau yn dda ac yn defnyddio dulliau priodol i olrhain a chofnodi cynnydd dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig ddigon manwl i awgrymu ffyrdd i ddysgwyr allu gwella eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddysgwyr ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw ychydig o athrawon yn manteisio ar y cyfleoedd, ac o ganlyniad, nid yw ychydig o ddysgwyr yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud.

At ei gilydd, mae'r maes dysgu yn sicrhau cyfleoedd da am brofiad gwaith i'w ddysgwyr. Lle nad oes llawer o gyfleoedd yn yr ardal, mae'r maes dysgu yn trefnu cyflwyniadau buddiol gan gyflogwyr i roi gwybodaeth am weithio yn eu diwydiant a gwybodaeth am ddatblygiadau technolegol cyfredol.

Mae'r maes dysgu yn hybu dysgwyr i gyfranogi mewn prosiectau cymunedol yn dda. Ymhlith y gweithgareddau hyn ceir gweithio gyda chlybiau hwylio a gwaith ar brosiectau treftadaeth. O ganlyniad, mae dysgwyr yn datblygu medrau defnyddiol fel cyfathrebu a gweithio fel aelod o dîm.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu geirfaoedd dwyieithog defnyddiol o dermau technegol perthnasol yn Gymraeg a Saesneg. Mae llawer o athrawon yn hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg llafar yn dda, ac maent yn defnyddio cyfleoedd sy'n codi'n naturiol yn dda i ddatblygu defnydd dysgwyr o Gymraeg llafar.

Mae'r maes dysgu yn dangos diwylliant cadarn o iechyd a diogelwch, a chaiff gweithdrefnau priodol eu cymhwyso'n gyson gan staff a dysgwyr ar draws pob safle.

Ceir adeiladau a chyfleusterau eang o ansawdd da ym mhob safle. Mae'r adnoddau yn Llangefni o safon arbennig o uchel, ac maent yn cynnwys offer weldio rhithwir arbenigol. Mae'r ganolfan hyfforddiant tyrbinau gwynt yn Rhos yn adnodd o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion dysgwyr a'r diwydiant lleol yn dda.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?**

**Barn: Da**

Mae rheolwyr yn y maes dysgu yn darparu arweinyddiaeth glir a chefnogol. Mae ganddynt rolau a chyfrifoldeb sydd wedi'u diffinio'n dda. Mae rheolwyr yn gweithio'n dda â'i gilydd i gyflawni blaenoriaethau'r coleg a'r maes dysgu. Maent yn rhoi ffocws clir ar wella profiad dysgwyr a safon cyrsiau. Caiff rheolwyr effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgwyr a pherfformiad y maes dysgu.

Ceir cyfathrebu clir rhwng rheolwyr a staff yn y maes dysgu. Mae rheolwyr a staff yn mynychu ystod eang o gyfarfodydd lle maent yn rhannu ystod gynhwysfawr o

wybodaeth. Mae'r cyfarfodydd hyn yn arbennig o effeithiol o ran rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am berfformiad y maes dysgu a'u cynnydd yn erbyn targedau.

Mae rheolwyr yn monitro ac yn adolygu data perfformiad dysgwyr fel mater o drefn. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer dadansoddi ac adolygu data perfformiad wedi'u cryfhau yn ddiweddar. O ganlyniad, mae dealltwriaeth glir a manwl gan reolwyr a staff ynglŷn â sut mae pob cwrs yn perfformio. Mae cwricwlwm y maes dysgu a'r grŵp ansawdd, sy'n cynnwys rheolwyr y maes dysgu a phennaeth cynorthwyol, wedi bod yn arbennig o effeithiol. Yn ystod y cyfarfodydd rheolaidd hyn, mae rheolwyr yn adolygu ystod fanwl o wybodaeth yn ymwneud â'r angen presennol am fedrau a'r angen yn y dyfodol. O ganlyniad, maent yn cynllunio'r ddarpariaeth i gyfateb yn fanwl i anghenion y diwydiant a chyfleoedd cyflogaeth.

Mae adroddiad hunanasesu'r maes dysgu yn ddogfen ddefnyddiol sy'n cynnwys ystod resymol o wybodaeth. Mae'r adroddiad yn defnyddio data perfformiad dysgwyr yn briodol i nodi cyrsiau sy'n tanberfformio. Fodd bynnag, mewn ychydig o adrannau, nid yw'r adroddiad yn ddigon manwl ac nid yw'n nodi gwahaniaethau mewn perfformiad ar draws safleoedd yn glir. O ganlyniad, mae rheolwyr yn colli'r cyfle i nodi arfer dda a thargedu meysydd i'w datblygu. Mae'r cynllunio ar gyfer gwella ansawdd yn effeithiol ac yn nodi'n dda beth yw blaenoriaethau allweddol y maes dysgu i'w gwella.

Mae rheolwyr yn defnyddio gweithdrefnau'r coleg ar gyfer rheoli perfformiad staff yn briodol. Mae'r broses hon yn cynnwys arsylwi addysgu sy'n nodi arfer dda a meysydd i'w datblygu.

Mae rheolwyr yn defnyddio arolygon a holiaduron yn dda i gael adborth gwerthfawr gan ddysgwyr. Maent yn defnyddio ymatebion llais y dysgwr yn dda i lywio datblygiadau ac i wella profiad y dysgwyr lle nodir bod angen.

Mae gan y maes dysgu bartneriaethau cadarn gydag ystod eang o gyflogwyr. Maent yn defnyddio'r partneriaethau hyn yn dda i gael profiad gwaith i ddysgwyr yn y mwyafrif o gyrsiau. Hefyd, mae'r maes dysgu hwn yn elwa o gael cyflwyniadau gan gyflogwyr ynglŷn â gweithio yn eu diwydiant a datblygiadau technolegol. Mae'r maes dysgu wedi datblygu partneriaethau buddiol gydag ysgolion lleol a darparwyr dysgu yn y gwaith.

Ar draws pob safle, mae rheolwyr yn rheoli eu hadnoddau yn dda. Maent yn effeithiol o ran cael yr adnoddau sydd eu hangen arnynt. Mae ystâd y maes dysgu yn cynnwys nifer fawr o weithdai ac ystafelloedd arbenigol. Mewn rhyw hanner o'r safleoedd, mae'r adeiladau, yr adnoddau ac offer o ansawdd arbennig o uchel.

Mae rheolwyr yn defnyddio staff yn briodol i wneud y defnydd gorau o'u gwybodaeth arbenigol a'u profiad diwydiannol. Mae staff ar bob lefel yn elwa o fynychu ystod gynhwysfawr o weithgareddau datblygiad proffesiynol.

Lletygarwch ac Arlwyo

## Cyd-destun y maes dysgu

Mae gan y maes dysgu ddarpariaeth ar gampysau Llandrillo-yn-Rhos, Dolgellau a Bangor. Cynigir ystod o gyrsiau amser llawn a rhan-amser o lefel 1 i lefel 6 ym mhob canolfan. Mae'r maes dysgu yn darparu cyrsiau mewn coginio proffesiynol, patisserie, gwasanaeth bwyd a diod a gwasanaethau lletygarwch.

Yn 2015-2016, roedd y maes dysgu yn cyfrif am ryw 4% o ddarpariaeth gyfan y coleg. Ar hyn o bryd, mae tua 400 o ddysgwyr amser llawn yn astudio yn y maes dysgu.

## Argymhellion y maes dysgu

A1 Gwella'r cyfraddau cwblhau llwyddiannus ar gyfer dysgwyr ar raglenni lefel 1

A2 Rhannu'r arfer dda mewn darpariaeth ddwyieithog

## Prif Ganfyddiadau

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

## Barn: Da

Yn 2015-2016, fe wnaeth dysgwyr gwblhau eu prif gymwysterau yn llwyddiannus mewn lletygarwch ac arlwyo ar gyfraddau ychydig yn uwch na'r cymharydd cenedlaethol. At ei gilydd, mae cyfraddau cwblhau llwyddiannus ar gyfer y tair blynedd diwethaf wedi aros yn sefydlog yn gyffredinol, ac yn nodweddiadol maent ychydig yn uwch na'r cymharydd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae cyfraddau llwyddo ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau a chymwysterau ar lefel 1 ychydig o dan y cyfartaledd cenedlaethol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd da ac maent ar y trywydd iawn i gyflawni eu cymwysterau. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r cynnydd y maent yn ei wneud a pha bryd y byddant yn cyflawni eu cymwysterau.

Mae bron pob dysgwr yn datblygu ac yn meistroli ystod eang o fedrau ymarferol gwahanol mewn paratoi bwyd a gwasanaeth bwyd. Defnyddiant y medrau hyn yn dda iawn yn y ceginau masnachol a mannau gwasanaeth bwyd ar draws y coleg.

Mae pob un o'r dysgwyr yn cael asesiad diagnostig cychwynnol ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Mae'r holl ddysgwyr yn gweithio tuag at dargedau llythrennedd a rhifedd, ac maent yn rheoli'r rhain yn effeithiol gan ddefnyddio system olrhain electronig y coleg. Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Defnyddiant y medrau hyn yn ddeheuig yn y gegin a bwytai'r coleg. Er enghraifft, yn y gegin, mae dysgwyr yn fedrus wrth gyfrifo amserau codi a phobi ar gyfer cynhyrchion toes wedi'i gyfoethogi.

Ar draws y coleg, mae dysgwyr yn parhau i ddatblygu eu medrau cyfathrebu yn Gymraeg yn dda iawn, yn enwedig ar gampysau Dolgellau a Bangor, lle mae medrau darllen, ysgrifennu a chyfathrebu cadarn gan lawer o ddysgwyr yn Gymraeg. Mae mwyafrif y dysgwyr yn datblygu'u medrau dwyieithog yn dda. Mae dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn defnyddio Cymraeg llafar yn naturiol yn y ceginau a'r bwytai. Defnyddiant y medrau hyn yn effeithiol i gyfarfod a chyfarch aelodau'r cyhoedd.

Mae ymddygiad bron pob un o'r dysgwyr yn rhagorol. Dangosant lefel uchel o broffesiynoldeb, maent yn gwrtais i ymwelwyr ac yn dangos parch i'w cyfoedion a'u hathrawon. Mae bron pob dysgwr yn mwynhau bywyd coleg ac yn cyfranogi'n dda yng ngweithgareddau'r coleg, fel digwyddiadau thema Dydd Gŵyl Dewi yn y bwyty.

Mae bron yr holl ddysgwyr yn ymgymryd ag amrywiaeth o brosiectau cymunedol fel cinio Sefydlu Maer Bangor, Gŵyl Conwy a phryd bwyd cymunedol Neuadd Pendre. Mae llawer o ddysgwyr yn cystadlu mewn cystadlaethau lleol, cystadlaethau yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Mae'r cyfleoedd hyn yn cymell dysgwyr yn fawr ac yn gwella eu rhagolygon o gael eu cyflogi.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Barn: Rhagorol**

Mae'r maes dysgu yn cynnig ystod eang o ddarpariaeth sy'n bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned yn dda iawn. Cynigia'r cwricwlwm gyfleoedd rhagorol i symud ymlaen o lefel 1 i lefel 6, gan alluogi dysgwyr i ddilyn cyrsiau perthnasol sy'n bodloni eu hanghenion unigol. O ganlyniad, mae Grŵp Llandrillo Menai yn cynnig cwricwlwm ehangach i ddysgwyr na hynny a oedd ar gael yn y colegau etifeddol. Bellach, caiff dysgwyr gyfleoedd i arbenigo ar lefel 3 mewn patisserie, gwasanaeth bwtri a bwyd, ac maent yn elwa o gael cysylltiad ag arbenigwyr yn y maes.

Mae'r maes dysgu yn darparu cyfleoedd eithriadol i ddysgwyr gaffael medrau coginio a thechnegol o bob cwr o'r byd. Mae llawer o ddysgwyr yn elwa ar gyfleoedd arloesol i gyfranogi mewn ystod o brosiectau medrau a chyflogadwyedd rhyngwladol, fel ymweld â Sefydliad Lletygarwch a Rheoli Twristiaeth Pacistan a'r Ysgol Gwestai a Thwristiaeth ym Morocco.

Mae pob un o'r ceginau hyfforddi a'r bwytai cyhoeddus ar draws y coleg yn galluogi dysgwyr i gael profiad gwerthfawr iawn yn gysylltiedig â gwaith mewn amgylchedd proffesiynol.

Mae bron pob athro yn cynllunio gwersi yn dda iawn ac yn darparu datblygiad medrau effeithiol i ddysgwyr. Defnyddir technegau holi yn effeithiol gan yr holl athrawon bron i gyfnerthu'r dysgu ac ehangu dealltwriaeth dysgwyr.

Mae gwybodaeth bynciol ddiweddar a phrofiad cadarn o ddiwydiant gan bron pob athro. Maent yn cyflwyno gwybodaeth dechnegol gywir yn dda ac yn dangos lefel uchel iawn o fedrau ymarferol.

Mae bron pob athro yn sicrhau bod dysgwyr yn llawn cymhelliant ac yn ymgymryd yn llawn â dysgu. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae'r rhediad yn addas i anghenion dysgwyr ac mae'r dulliau addysgu yn addas o heriol. Mae bron pob athro yn defnyddio proffiliau grŵp yn effeithiol iawn, ac maent yn cynllunio'n dda i fodloni anghenion dysgwyr o alluoedd gwahanol yn yr un grŵp. Mae dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn elwa o gael cynorthwywyr cymorth medrus iawn.

Mae athrawon yn olrhain ac yn monitro cynnydd mewn asesu yn effeithiol. Darperir adborth ysgrifenedig cynhwysfawr a chefnogol gan athrawon, ac mae hyn yn helpu dysgwyr i wybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae athrawon yn ymgorffori addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda mewn gwersi, er enghraifft, drwy alluogi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth am gyrchu cynhyrchion cynaliadwy ac ailgylchu gwastraff bwyd. Mewn dosbarthiadau ymarferol, maent yn dysgu am yr angen i gyrchu nwyddau, er enghraifft dofednod a physgod, mewn modd cynaliadwy.

Yng Ngholeg Meirion-Dwyfor, mae athrawon yn paratoi ac yn cyflwyno gwersi dwyieithog effeithiol iawn. Yn y rhan fwyaf o wersi ymarferol, mae tasgau llythrennedd a rhifedd yn atgyfnerthu cysyniadau ac mae athrawon yn darparu cymorth cadarn i helpu dysgwyr ddatblygu eu medrau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ceir adnoddau da ac offer diweddar ym mhob un o fwytai cyhoeddus a cheginau hyfforddi'r coleg. Mae bob un o'r rhain yn darparu amgylchedd ysgogol ar gyfer dysgu.

Mae bron pob un o'r athrawon a dysgwyr yn talu sylw da i iechyd, diogelwch a lles yn yr amgylchedd dysgu.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?**

**Barn: Rhagorol**

Mae tri o reolwyr meysydd rhaglen yn rheoli'r ddarpariaeth lletygarwch ac arlwyo ar y cyd ar draws Grŵp Llandrillo Menai. Mae pob rheolwr maes rhaglen yn gyfrifol ac yn atebol am y ddarpariaeth a'r safonau a gyflawnir yn eu coleg eu hunain. Gyda'i gilydd, maent wedi creu diwylliant agored a diwylliant o rannu yn eu maes dysgu ar draws y coleg, ac maent wedi codi safonau ar gyfer dysgwyr ym mhob un o'r tri choleg cyfansoddol.

Mae rheolwyr y meysydd rhaglen yn darparu cyfeiriad clir i'w staff ac maent yn effeithiol iawn o ran ysgogi gwelliannau mewn deilliannau dysgwyr ac ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth. Mae'r holl reolwyr a'r staff yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau a'u llinellau atebolrwydd. Mae'r tîm rheoli a staff y maes dysgu yn gweithio'n dda â'i gilydd ac yn cydweithredu'n effeithiol iawn gydag adrannau eraill y coleg ar draws y grŵp.

Ceir cyfathrebu effeithiol iawn ar draws y maes dysgu. Trefnir amserlen gadarn o gyfarfodydd ar bob lefel. Mae agenda fuddiol ar gyfer pob cyfarfod, gyda ffocws manwl ar lwyddiant dysgwyr, cyfraddau cadw, presenoldeb, targedau cyrsiau a mentrau ar draws grwpiau.

Mae adroddiad hunanasesu'r maes dysgu yn ddogfen gynhwysfawr sy'n adlewyrchu'r maes dysgu yn dda yn gyffredinol. Mae'r cynllun datblygu ansawdd yn nodi meysydd i'w gwella yn glir ac mae'n pennu targedau realistig ac amserol. Er enghraifft, lle ceir ychydig o danberfformio yn y ddarpariaeth lefel 1, mae mesurau wedi'u rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae rheolwyr wedi gweithio'n effeithiol iawn i safoni'r hyn a gynigir yn y cwricwlwm ar draws y coleg, ac i rannu arfer dda ac adnoddau rhwng safleoedd a cholegau etifeddol. Effaith hyn fu codi'r safonau ar draws bob un o'r tri choleg. Mae gan bob dysgwyr fynediad i'r un cynnig cyson o ran cymwysterau ac mae llawer ohonynt yn manteisio ar gyfleoedd i symud ymlaen i addysgu bellach, addysg uwch a dysgu yn y gwaith ar draws y coleg.

Mae rheolwyr a staff yn mynychu ystod eang o gyfarfodydd rhwydwaith gyda cholegau a darparwyr eraill i rannu arfer orau, er enghraifft drwy grŵp lletygarwch Cymru gyfan. Mae'r coleg yn aml yn arwain wrth ddatblygu mentrau newydd.

Mae'r maes dysgu wedi datblygu partneriaethau tymor hir eithriadol gydag ystod eang o gyflogwyr rhyngwladol, cenedlaethol a lleol o ansawdd uchel. Mae hyn yn cynnig cyfle gwych i lawer o ddysgwyr ymgymryd â phrofiad gwaith o ansawdd uchel ledled y DU, Ewrop a'r byd. Hefyd, mae'r maes rhaglen wedi datblygu partneriaethau da iawn gydag ysgolion lleol a chanolfannau addysg amgen i ddarparu unedau yn llwyddiannus tuag at gymwysterau lletygarwch lefel 1.

Caiff pob aelod o staff gyfleoedd rheolaidd i ymgymryd â datblygiad proffesiynol. Mae llawer o'r staff yn aelodau o gyrff proffesiynol yn y diwydiant lletygarwch ac arlwyo. Mae rheolwyr y maes dysgu yn atebol am eu cyllideb eu hunain, ac maent yn rheoli eu cyllid a'u hadnoddau yn dda. Defnyddiant eu staff yn effeithiol iawn i sicrhau bod dysgwyr yn elwa ar ystod o arbenigedd.

| Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith |
| --- |

## Cyd-destun y maes dysgu

Mae'r maes dysgu busnes, gweinyddu a'r gyfraith yn cynnig cyrsiau yn y tri choleg ar draws saith campws ar wahân.

Mae cyrsiau ar gael ar bob lefel, o lefel 1 i raglenni addysg uwch. Yn 2015-2016, roedd y maes dysgu yn cyfrif am ryw 8% o gyfanswm darpariaeth y coleg. Ar hyn o bryd, mae rhyw 330 o ddysgwyr amser llawn yn astudio yn y maes dysgu. Yn ystod yr arolygiad, cafodd y ddarpariaeth Uwch Gyfrannol a Safon Uwch mewn pynciau yn gysylltiedig â busnes eu harolygu yn y maes rhaglen Safon Uwch.

## Argymhellion y maes dysgu

A1 Gwella'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau a'u cymwysterau'n llwyddiannus

A2 Gwella strategaethau addysgu i sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei herio'n llawn

A3 Gwella rheoli a chydlynu profiad yn gysylltiedig â gwaith er mwyn gwella profiad dysgwyr a sicrhau mwy o gysondeb ar draws campysau

**Prif Ganfyddiadau**

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Barn: Da**

Mae dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau'n llwyddiannus ar gyfraddau yr un fath â'r cyfartaleddau cenedlaethol neu gerllaw ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf. Mae cyfraddau llwyddo wedi dangos tuedd o wella dros y cyfnod tair blynedd. Fodd bynnag, mae cyfraddau llwyddo ar ychydig o brif gymwysterau islaw meincnodau cenedlaethol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu ac yn dangos lefelau hunanhyder gwell. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn symud ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch, hyfforddiant neu gyflogaeth ar ôl cwblhau eu cwrs.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cofio dysgu blaenorol yn dda ac mae llawer o ddysgwyr yn caffael ac yn cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd yn effeithiol yn eu dysgu, er enghraifft wrth ystyried effaith disgowntio prisiau a chynigion arbennig ar faint o wastraff a gynhyrchir mewn busnesau manwerthu.

Mae gwaith ysgrifenedig a gwaith ymarferol bron pob dysgwr o safon uchel. Defnyddir cynlluniau dysgu electronig unigol yn effeithiol gan y rhan fwyaf o ddysgwyr i gynllunio ac arfarnu eu cynnydd drwy osod targedau priodol a chyfranogi mewn adolygiadau un-i-un rheolaidd gyda'u tiwtoriaid.

Mae pob dysgwr yn ymgymryd ag asesiadau cychwynnol a diagnostig ar ddechrau eu cwrs. Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da mewn llythrennedd a chynnydd priodol mewn rhifedd o ystyried eu mannau cychwyn.

Mewn llawer o wersi, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio'u medrau llythrennedd digidol yn dda, er enghraifft drwy wneud ymchwil, wrth gwblhau gweithgareddau yn y dosbarth ac wrth gyflwyno gwaith i'w asesu.

Mae lleiafrif o ddysgwyr yn datblygu ac yn defnyddio medrau siarad a gwrando Cymraeg yn dda o gymharu â'u dysgu blaenorol. Er enghraifft, mae bron pob dysgwr sy'n siarad Cymraeg a Saesneg yn gwneud cynnydd da ac yn cefnogi ei gilydd yn dda yn eu dysgu mewn dosbarthiadau dwyieithog. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr Cymraeg eu hiaith yn datblygu nac yn defnyddio medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn ddigonol yn eu hastudiaethau.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn llawn cymhelliant. Maent yn mynychu'n rheolaidd ac yn cyrraedd yn brydlon ar gyfer eu dosbarthiadau. Mae'r holl ddysgwyr yn dangos lefel uchel o barch at ei gilydd ac yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o amgylch y coleg. Mae bron yr holl ddysgwyr yn gweithio'n dda â'i gilydd ac yn cefnogi ei gilydd i wella eu medrau.

Mae bron yr holl ddysgwyr yn mwynhau bywyd coleg ac yn cyfranogi'n dda yng ngweithgareddau'r coleg. Er enghraifft, mae dysgwyr yn y maes dysgu yn chwarae rhan werthfawr yn hyrwyddo a chyflawni nifer o ddigwyddiadau elusen a gynhelir ar draws y coleg. Fodd bynnag, mae cyfleoedd dysgwyr i ymgysylltu â phrofiad gwaith defnyddiol yn anghyson ar draws y maes dysgu.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Barn: Da**

Mae'r coleg yn cynnig darpariaeth gynhwysfawr a hyblyg ar gyfer busnes, gweinyddu a'r gyfraith ar draws y saith campws.

Mae bron pob athro yn cynllunio sesiynau'n effeithiol, gydag ystod addas o strategaethau addysgu sy'n ystyried anghenion dysgwyr yn dda. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gosod rhediad priodol yn eu gwersi. Mae'r holl athrawon bron yn pennu disgwyliadau uchel ar gyfer eu dysgwyr ac maent yn monitro'u cynnydd yn rheolaidd yn erbyn targedau i sicrhau bod dysgwyr yn cyflawni neu'n rhagori ar eu gradd darged. Mae bron pob athro yn sicrhau eu bod yn diweddaru eu gwybodaeth bynciol a'u gwybodaeth am ofynion cyrff dyfarnu yn rheolaidd.

Darperir gwersi sy'n ysgogol ac yn heriol gan lawer o athrawon. Mae ychydig o athrawon yn mynd ati'n effeithiol iawn i reoli grwpiau addysgu lefelau cymysg lle mae dysgwyr yn anelu at lefelau cymhwyster gwahanol. Mae'r athrawon i gyd yn gweithredu fel modelau rôl addas, ac maent yn gosod safonau uchel ar gyfer ymddygiad a pherfformiad dysgwyr.

Mae'r holl athrawon bron yn cynllunio asesiadau yn dda ac yn darparu adborth defnyddiol ar ddatblygiad i ddysgwyr. Defnyddir holi uniongyrchol sylfaenol yn briodol gan yr holl athrawon. Fodd bynnag, dim ond ychydig o athrawon sy'n defnyddio holi estynedig yn dda i ddarparu digon o her i ddysgwyr mwy abl.

Mae'r maes dysgu yn defnyddio asesiadau diagnostig cychwynnol yn effeithiol i osod targedau a nodi dysgwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae athrawon yn monitro targedau llythrennedd a rhifedd dysgwyr yn effeithiol trwy gynllun dysgu unigol electronig y coleg.

Mae llawer o athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig adeiladol sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu'u medrau. Defnyddiant ganllaw marcio llythrennedd y coleg yn effeithiol i amlygu ble gall y dysgwyr wella, er enghraifft eu cystrawen a'u hatalnodi. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn annog dysgwyr i ddatblygu eu medrau llefaredd yn dda, er enghraifft drwy eu hannog i daflu'r llais yn briodol yn ystod trafodaethau dosbarth. Fodd bynnag, ychydig o athrawon yn unig sy'n darparu cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau rhifedd lefel uwch, yn enwedig lle mae dysgwyr eisoes wedi cyflawni graddau da mewn TGAU mathemateg.

Mae'r maes dysgu yn defnyddio'i bartneriaethau gyda busnesau lleol yn dda i wella profiadau dysgwyr, er enghraifft trwy gyflwyniadau gan siaradwyr gwadd o archfarchnad leol, neu drwy leoliadau gwaith neu amgylcheddau gwaith realistig yn y coleg. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer y cyfleoedd hyn yn anghyson ar draws y maes dysgu.

Mae bron pob un o’r ystafelloedd dosbarth yn addas i’r diben, ac mae’r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys arddangosiadau defnyddiol a phriodol o waith dysgwyr, deunyddiau diweddar a pherthnasol yn gysylltiedig â phwnc ac enghreifftiau patrymol defnyddiol o lythrennedd a rhifedd.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth?**

**Barn: Da**

Mae rheolwyr y maes dysgu yn darparu gweledigaeth a chyfeiriad cadarn i’r staff. Caiff targedau clir eu pennu gan reolwyr ar gyfer staff ac maent yn monitro cynnydd yn effeithiol er mwyn gwella arfer. Mae rolau rheolwyr a rolau staff wedi’u diffinio’n dda gyda llinellau atebolrwydd clir. Defnyddir cyfarfodydd yn dda gan reolwyr i gynllunio a blaenoriaethu gweithgareddau, gan ddilyn agenda gyffredin ddefnyddiol, gyda ffocws priodol ar gyfraddau cadw, presenoldeb a deilliannau dysgwyr. O ganlyniad, mae cyfraddau llwyddo yn dangos tueddiadau o wella, er bod ychydig o brif gyrsiau cymwysterau yn parhau islaw meincnodau cenedlaethol.

Mae’r adroddiad hunanasesu yn asesiad onest a myfyriol o gryfderau a meysydd i’w gwella. Mae rheolwyr yn tynnu sylw at gyrsiau lle ceir tanberfformio, ac yn creu cynlluniau gweithredu cadarn sy’n canolbwyntio ar wella deilliannau ar gyfer dysgwyr. Hefyd, mae rheolwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ddata tueddiadau a data meincnodi i ysgogi gwelliannau. Defnyddiant ddata o system wybodaeth electronig y coleg yn effeithiol i amlygu dangosyddion perfformiad allweddol, a meysydd cryfder a thanberfformiad.

Mae rheolwyr a staff yn y maes dysgu yn ymateb yn effeithiol i lais y dysgwr. Er enghraifft, fe wnaeth dysgwyr busnes fynegi pryderon ynglŷn â threfniadau amserlennu. O ganlyniad, diwygiwyd yr amserlenni gan reolwyr i ddiwallu anghenion dysgwyr.

Mae rheolwyr yn defnyddio’r cynllun gwella ansawdd yn dda i fynd i’r afael â meysydd i’w gwella a nodwyd yn yr hunanasesiad. Maent yn rhoi gweithdrefnau sicrhau ansawdd cynhwysfawr ar waith sy’n monitro ac yn olrhain cyflawniadau dysgwyr y effeithiol. Mae rheolwyr yn cynnal gwerthusiadau blynyddol defnyddiol gyda staff ac yn gosod targedau heriol ar sail perfformiad. O ganlyniad i hyn, mae rheolwyr wedi blaenoriaethu rhaglenni hyfforddi defnyddiol i staff yn y maes dysgu ac yn rhannu arfer dda yn dda. Mae rheolwyr y maes dysgu yn ystyried anghenion y gymuned leol yn dda wrth gynllunio’r cwricwlwm, er enghraifft drwy gyflwyno dyddiadau dechrau hyblyg ar gyfer cyrsiau ar gampws Dinbych.

Mae rheolwyr a staff wedi sefydlu ystod o bartneriaethau effeithiol gyda sefydliadau addysg uwch a’r awdurdod iechyd rhanbarthol. Mae rheolwyr a staff yn defnyddio siaradwyr gwadd o ddarparwyr addysg uwch a darparwyr prentisiaethau lleol yn dda i helpu dysgwyr wneud dewisiadau ynglŷn â’u cyfleoedd dilyniant. Fodd bynnag, mae rheolwyr a staff yn anghyson o ran eu hymagweddau at ddarparu profiad yn gysylltiedig â gwaith.

Mae rheolwyr y maes rhaglen yn atebol am eu cyllideb eu hunain ac yn rheoli eu cyllid yn dda. Dyrennir adnoddau yn deg ar draws y campysau. Mae rheolwyr yn

defnyddio trefniadau monitro cadarn i sicrhau perfformiad effeithiol. Mae rheolwyr yn amserlennu ac yn defnyddio staff yn effeithiol. Mae'r amgylchedd dysgu yn addas i'r diben, ac mae technoleg briodol a diweddar ar gael i staff a dysgwyr.

# Atodiad 1

## Boddhad dysgwyr

**Learner Questionnaire / Holiadur Dysgwyr**

**Grwp Llandrillo Menai**


| | |
|---|---|
| Gender: | All Gender |
| Full-time/Part-time study: | All FT/PT |
| Age Group: | All Ages |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I was given good information by my provider when I was choosing my learning programme. | 0 | 0% | 0% | 0% | 0% | Cefais wybodaeth dda gan fy narparwr pan oeddwn yn dewis fy rhaglen ddysgu. |
| I have been given good advice about what I can do when I have finished my learning programme. | 0 | 0% | 0% | 0% | 0% | Rydw i wedi cael cyngor da ynglŷn â'r hyn y gallaf ei wneud pan fyddaf wedi gorffen fy rhaglen ddysgu. |
| My induction has helped me to settle in to my learning programme. | 0 | 0% | 0% | 0% | 0% | Mae fy nghyfnod ymsefydlu wedi helpu i mi ymgynefino yn fy rhaglen ddysgu. |
| I get good personal support from my tutors, trainers or assessors. | 0 | 0% | 0% | 0% | 0% | Rydw i'n cael cymorth personol da gan fy nhiwtoriaid, hyfforddwyr neu aseswyr. |
| There are other effective types of support available for me. | 0 | 0% | 0% | 0% | 0% | Mae mathau effeithiol eraill o gymorth ar gael i mi. |
| I understand why I was initially assessed at the start of my learning programme. | 0 | 0% | 0% | 0% | 0% | Rydw i'n deall pam y cefais fy asesu ar ddechrau fy rhaglen ddysgu |
| I know what I need to do to improve my literacy and numeracy. | 0 | 0% | 0% | 0% | 0% | Rydw i'n gwybod beth mae angen i mi ei wneud i wella fy llythrennedd a rhifedd. |
| I regularly work with my tutor to set targets for this improvement. | 0 | 0% | 0% | 0% | 0% | Rydw i'n gweithio gyda'm tiwtor yn rheolaidd i osod targedau ar gyfer y gwelliant hwn. |
| The targets I have set with my tutor have helped me to improve. | 0 | 0% | 0% | 0% | 0% | Mae'r targedau rydw i wedi eu gosod gyda'm tiwtor wedi helpu i mi wella. |
| I know how I will be supported in English, Maths and IT. | 0 | 0% | 0% | 0% | 0% | Rydw i'n gwybod sut byddaf yn cael cymorth mewn Saesneg, Mathemateg a TG. |
| Staff give me learning opportunities and support in Welsh and/or English according to my choice. | 0 | 0% | 0% | 0% | 0% | Mae staff yn rhoi cyfleoedd dysgu a chymorth i mi yn Gymraeg a/neu Saesneg fel rydw i'n dewis. |
| (Welsh speaking learners only) Should I wish to do so, I can access support for my learning through the medium of Welsh. | 0 | 0% | 0% | 0% | 0% | (Dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn unig) Pe bawn i'n dymuno gwneud hynny, rydw i'n gallu cael cymorth ar gyfer fy nysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| (Welsh speaking learners only) Should I wish to do so, I am able to complete assessments through the medium of Welsh. | 1395 | 500<br>36% | 690<br>49% | 143<br>10% | 62<br>4% | (Dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn unig) Pe bawn i'n dymuno gwneud hynny, rydw i'n gallu cwblhau asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Staff show all learners respect and listen to their views and concerns. | 2744 | 1223<br>45% | 1320<br>48% | 154<br>6% | 47<br>2% | Mae staff yn dangos parch at bob un o'r dysgwyr ac yn gwrando ar eu safbwyntiau a'u pryderon. |
| Staff act on the views of learners. | 2726 | 880<br>32% | 1616<br>59% | 208<br>8% | 22<br>1% | Mae staff yn gweithredu yn unol â safbwyntiau dysgwyr. |
| Staff help me to understand and to respect people from different backgrounds. | 2708 | 1054<br>39% | 1488<br>55% | 136<br>5% | 30<br>1% | Mae staff yn fy helpu i ddeall a pharchu pobl o wahanol gefndiroedd. |
| Learners show respect and support one another well. | 2737 | 929<br>34% | 1587<br>58% | 182<br>7% | 39<br>1% | Mae dysgwyr yn dangos parch ac yn cynorthwyo ei gilydd yn dda. |
| Staff help me to learn and to make progress. | 2742 | 1170<br>43% | 1520<br>55% | 44<br>2% | 8<br>0% | Mae staff yn helpu i mi ddysgu a gwneud cynnydd. |
| When required, I have access to good quality work placements. | 2574 | 735<br>29% | 1497<br>58% | 302<br>12% | 40<br>2% | Pan fydd angen, gallaf fanteisio ar leoliadau gwaith o ansawdd da. |
| I feel safe and free from harassment in my place of learning. | 2744 | 1201<br>44% | 1373<br>50% | 134<br>5% | 36<br>1% | Rydw i'n teimlo'n ddiogel ac yn rhydd oddi wrth aflonyddwch yn fy lleoliad dysgu. |
| I enjoy my learning. | 2753 | 1161<br>42% | 1414<br>51% | 144<br>5% | 34<br>1% | Rydw i'n mwynhau fy nysgu. |
| Staff use good quality learning materials. | 2742 | 1076<br>39% | 1549<br>56% | 105<br>4% | 12<br>0% | Mae staff yn defnyddio deunyddiau dysgu o ansawdd da. |
| My teachers have good knowledge of their subject. | 2753 | 1600<br>58% | 1098<br>40% | 46<br>2% | 9<br>0% | Mae gan fy athrawon wybodaeth dda am eu pwnc. |
| I have access to enough books and equipment, including computers, to do my work. | 2755 | 1362<br>49% | 1252<br>45% | 120<br>4% | 21<br>1% | Mae digon o lyfrau ac offer, gan gynnwys cyfrifiaduron, ar gael i mi wneud fy ngwaith. |
| Staff give me useful feedback on how I can improve my work. | 2751 | 1248<br>45% | 1396<br>51% | 95<br>3% | 12<br>0% | Mae staff yn rhoi adborth defnyddiol i mi ar sut gallaf i wella fy ngwaith. |
| My learning will help me to achieve my goals. | 2745 | 1303<br>47% | 1381<br>50% | 50<br>2% | 11<br>0% | Bydd fy nysgu yn helpu i mi gyflawni fy nodau. |
| Taking part in this learning programme has helped me to improve my life skills. | 2733 | 980<br>36% | 1524<br>56% | 203<br>7% | 26<br>1% | Mae cymryd rhan yn y rhaglen ddysgu hon wedi helpu i mi wella fy medrau bywyd. |
| Taking part in this learning programme has helped me to become involved in my community. | 2691 | 572<br>21% | 1408<br>52% | 608<br>23% | 103<br>4% | Mae cymryd rhan yn y rhaglen ddysgu hon wedi helpu i mi gymryd rhan yn fy nghymuned. |
| My learning has helped improve my attitudes to keeping healthy and safe. | 2697 | 749<br>28% | 1539<br>57% | 346<br>13% | 63<br>2% | Mae fy nysgu wedi helpu i mi wella fy agweddau at gadw'n iach a diogel. |
| I would recommend this learning provider to other people. | 2737 | 1230<br>45% | 1380<br>50% | 96<br>4% | 31<br>1% | Byddwn yn argymell y darparwr dysgu hwn i bobl eraill. |


# **Learner Questionnaire / Holiadur Dysgwyr**

**All Gender, All FT/PT, All Ages**




| | |
|---|---|
| I was given good information by my provider when I was choosing my learning programme. | Cefais wybodaeth dda gan fy narparwr pan oeddwn yn dewis fy rhaglen ddysgu. |
| I have been given good advice about what I can do when I have finished my learning programme. | Rydw i wedi cael cyngor da ynglŷn â'r hyn y gallaf ei wneud pan fyddaf wedi gorffen fy rhaglen ddysgu. |
| My induction has helped me to settle in to my learning programme. | Mae fy nghyfnod ymsefydlu wedi helpu i mi ymgynefino yn fy rhaglen ddysgu. |
| I get good personal support from my tutors, trainers or assessors. | Rydw i'n cael cymorth personol da gan fy nhiwtoriaid, hyfforddwyr neu aseswyr. |
| There are other effective types of support available for me. | Mae mathau effeithiol eraill o gymorth ar gael i mi. |
| I understand why I was initially assessed at the start of my learning programme. | Rydw i'n deall pam y cefais fy asesu ar ddechrau fy rhaglen ddysgu |
| I know what I need to do to improve my literacy and numeracy. | Rydw i'n gwybod beth mae angen i mi ei wneud i wella fy llythrennedd a rhifedd. |
| I regularly work with my tutor to set targets for this improvement. | Rydw i'n gweithio gyda'm tiwtor yn rheolaidd i osod targedau ar gyfer y gwelliant hwn. |
| The targets I have set with my tutor have helped me to improve. | Mae'r targedau rydw i wedi eu gosod gyda'm tiwtor wedi helpu i mi wella. |
| I know how I will be supported in English, Maths and IT. | Rydw i'n gwybod sut byddaf yn cael cymorth mewn Saesneg, Mathemateg a TG. |
| Staff give me learning opportunities and support in Welsh and/or English according to my choice. | Mae staff yn rhoi cyfleoedd dysgu a chymorth i mi yn Gymraeg a/neu Saesneg fel rydw i'n dewis. |
| (Welsh speaking learners only) Should I wish to do so, I can access support for my learning through the medium of Welsh. | (Dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn unig) Pe bawn i'n dymuno gwneud hynny, rydw i'n gallu cael cymorth ar gyfer fy nysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| (Welsh speaking learners only) Should I wish to do so, I am able to complete assessments through the medium of Welsh. | (Dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn unig) Pe bawn i'n dymuno gwneud hynny, rydw i'n gallu cwblhau asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Staff show all learners respect and listen to their views and concerns. | Mae staff yn dangos parch at bob un o'r dysgwyr ac yn gwrando ar eu safbwyntiau a'u pryderon. |
| Staff act on the views of learners. | Mae staff yn gweithredu yn unol â safbwyntiau dysgwyr. |
| Staff help me to understand and to respect people from different backgrounds. | Mae staff yn fy helpu i ddeall a pharchu pobl o wahanol gefndiroedd. |

| | |
|---|---|
| Learners show respect and support one another well. | Mae dysgwyr yn dangos parch ac yn cynorthwyo ei gilydd yn dda. |
| Staff help me to learn and to make progress. | Mae staff yn helpu i mi ddysgu a gwneud cynnydd. |
| When required, I have access to good quality work placements. | Pan fydd angen, gallaf fanteisio ar leoliadau gwaith o ansawdd da. |
| I feel safe and free from harassment in my place of learning. | Rydw i'n teimlo'n ddiogel ac yn rhydd oddi wrth aflonyddwch yn fy lleoliad dysgu. |
| I enjoy my learning. | Rydw i'n mwynhau fy nysgu. |
| Staff use good quality learning materials. | Mae staff yn defnyddio deunyddiau dysgu o ansawdd da. |
| My teachers have good knowledge of their subject. | Mae gan fy athrawon wybodaeth dda am eu pwnc. |
| I have access to enough books and equipment, including computers, to do my work. | Mae digon o lyfrau ac offer, gan gynnwys cyfrifiaduron, ar gael i mi wneud fy ngwaith. |
| Staff give me useful feedback on how I can improve my work. | Mae staff yn rhoi adborth defnyddiol i mi ar sut gallaf i wella fy ngwaith. |
| My learning will help me to achieve my goals. | Bydd fy nysgu yn helpu i mi gyflawni fy nodau. |
| Taking part in this learning programme has helped me to improve my life skills. | Mae cymryd rhan yn y rhaglen ddysgu hon wedi helpu i mi wella fy medrau bywyd. |
| Taking part in this learning programme has helped me to become involved in my community. | Mae cymryd rhan yn y rhaglen ddysgu hon wedi helpu i mi gymryd rhan yn fy nghymuned. |
| My learning has helped improve my attitudes to keeping healthy and safe. | Mae fy nysgu wedi helpu i mi wella fy agweddau at gadw'n iach a diogel. |
| I would recommend this learning provider to other people. | Byddwn yn argymell y darparwr dysgu hwn i bobl eraill. |



## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Steve Bell | Arolygydd Cofnodol |
| Lowri Jones | Arolygydd Tîm |
| Alun Connick | Arolygydd Tîm |
| Sandra Barnard | Arolygydd Tîm |
| Vanessa Morgan | Arolygydd Tîm |
| Gareth Kiff | Arolygydd Tîm |
| Mark Evans | Arolygydd Tîm |
| Sion Peters-Flynn | Arolygydd Tîm |
| Ian Dickson | Arolygydd Tîm |
| Jackie Gapper | Arolygydd Sicrhau Ansawdd |
| Ivan Gregory | Arolygydd Cymheiriaid |
| Kay Morgan | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mary Richards | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gavin Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Jacqueline Ann Button Kelshaw | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gwyneth Preston | Arolygydd Cymheiriaid |
| Samuel Mark Clement | Arolygydd Cymheiriaid |
| Tessa Jennings | Arolygydd Cymheiriaid |
| Cathryn Sanders | Arolygydd Cymheiriaid |
| Victoria Thomas | Arolygydd Cymheiriaid |
| Angela Lewis | Arolygydd Cymheiriaid |
| Stephen Cass | Arolygydd Cymheiriaid |
| Steven Prosser | Arolygydd Cymheiriaid |
| Stuart Ford | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mark Richards | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nora Richardson | Arolygydd Cymheiriaid |

| | |
|---|---|
| James Nelson | Enwebai |